

Llais

70c

Arduw

RHIF 499 - MEHEFIN 2020

MAES PARCIO I NEUADD LLANBEDR



Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol Canolfan Gymdeithasol Llanbedr yn ddiweddar ac er bod yr argyfwng Cofid-19 wedi golygu colli dau fis cyfan o weithgareddau, bu'r flwyddyn yn un lwyddiannus. Daeth y gweithgareddau amrywiol a £1,000 o elw i'r coffrau.

Bu llwyddiant mawr o safbwynt chwilio am arian datblygu hefyd a chlywyd fod ceisiadau am arian i greu maes parcio yn lwyddiannus. Derbyniwyd £2,500 gan Garfield Weston ac mae £2,000 wedi ei addo gan Foyle Trust pan fydd y gwaith yn dechrau. Derbyniwyd rhodd hael iawn gan gymwynaswr lleol sydd am fod yn ddi-enw; £2,800 yn uniongyrchol gan y rhoddwr a £700 yn ychwanegol drwy wneud cais i'r cynllun cymhorthdal trethiant sef cyfanswm o £3,500. Golyga hyn bod digon o arian i greu'r maes parcio a oedd yn y cynllun datblygu gwreiddiol ac sydd angen ei wneud i fodloni'r amodau yn y caniatâd cynllunio i ddatblygu'r safle. Fe welwch o'r llun fod y gwaith wedi cychwyn erbyn hyn.

EBRILL A MAI

Er i ni wneud ein gorau glas i roi gwybod i bobl lle i gael y copïau electronaidd o Llais Arduw a gyhoeddwyd ym misoedd Ebrill a Mai, mae'n bosib iawn nad yw pob un o'r ffyddloniaid wedi cael cyfle i ddarllen y ddau rifyn diwethaf.

Mae tair ffordd bosib o gael copïau.

1. Eu darllen ar y we.

Cyfeiriad y safle yw: <http://issuu.com/llaisardudwy/docs>

2. Anfon e-bost at llaisardudwy@outlook.com a gofyn am gopi.

3. Gofyn i gyfaill argraffu copi i chi.

Os ydych am danysgrifio am y copi electronaidd, cofiwch roi eich cyfeiriad e-bost a nodi TAN ar y taliad sydd yn £7.70 am flwyddyn.

ATEB HER 5 CILOMEDR



'Dan ni - Carys, Osian a Sioned, Tallin yn byw yn nhopïau Llandecwyn ac wrth edrych draw am Ben Llŷn neu tuag at yr Wyddfa ar noson braf, mae'n hawdd iawn anghofio fod Cofid-19 yn creu y fath lanast ar draws y byd. Mae hi'n gyfnod gwahanol i lawer ohonom, yn gyfnod ansicr a phryderus ond hefyd yn gyfnod diddorol, lle bod gofyn i ni fod adra a pheidio crwydro yma ac acw fel ydym yn arfer ei wneud. Dwi'n gwybod fod rhai wrth eu bodd yn gweithio o adra, eraill yn ei chael yn anodd ac eraill wrth gwrs yn parhau i weithio, diolch amdanynt.

Dwi wedi teimlo'n euog ar brydiau nad ydw i'n gallu gwneud dim byd ymarferol i helpu. Dydw i ddim yn nyrs nac yn ofalwraig, dydw i chwaith ddim yn gallu gwnio na gweu. Ond mae yna lawer o heriau wedi eu gosod ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn codi calon neu godi arian. Mae elusennau yn pryderu'n fawr gan nad ydynt yn gallu cynnal digwyddiadau codi arian ac mae'r siopau ar y stryd fawr ar gau hefyd am y tro. Felly ar ôl i mi gael fy herio gan Janet drws nesa i gerdded neu redeg neu feicio am 5 cilomedr, mi benderfynais y byddwn yn rhoi cynnig arni ac mi benderfynodd Osian a Sioned ymuno â fi. Cerdded o tŷ ni i Soar wnaethon ni ar bnawn Sadwrn braf, cyfanswm o 5.48 cilomedr ac mi gymrodd awr ac wyth munud yn ôl Strava. Dydw i ddim yn berson ffit iawn, yn mynd i bob man yn y car yn hytrach na cherdded (er fy mod wedi cerdded mwy dros yr wyth wythnos diwetha' na wnes i ers symud yma dros 20 mlynedd yn ôl!) ac roedd y coesau braidd yn stiff y diwrnod canlynol ond mi wnaeth les mawr i mi ac roeddwn yn falch o allu rhoi cyfraniad tuag at elusen Awyr Las. Dwi'n gwybod am amryw o elusennau sydd wedi cael budd o'r her yma felly roedd yn beth positif i'w wneud.

Yn ogystal â hyn, dwi wedi gweld plant yn cael eu trochi gyda bwced o ddŵr oer, a phlant hefyd yn bwyta lemon, siwgr ac yn yfed llefrith, a ffrindiau yn gofyn i chi rannu lluniau ohonoch fel mam ayyb. Her arall sy'n boblogaidd ar hyn o bryd ydy'r her o lyncu ŵy amrwd, llwyaid o siwgr a siot o ddiod ac yn anffodus mi gefais fy enwebu i wneud yr her yma hefyd! Mi wnes i hyn, a chyfrannu at *Bowel Cancer UK* y tro yma, ond roedd yr her o gerdded 5k yn dipyn brafiach - ych a fi! Cadwch yn ddiogel. Daw eto haul ar fryn.



GOLYGYDDION

1. Phil Mostert

Bryn Awel, Ffordd Uchaf,
Harlech 01766 780635
pmostert56@gmail.com

2. Anwen Roberts

Craig y Nos, Llandecwyn
01766 772960
anwen15cynos@gmail.com

3. Haf Meredydd

Newyddion/erthyglau i:
hmeredydd21@gmail.com
07760 283024 / 01766 780541

SWYDDOGION

Cadeirydd:

Hefina Griffith 01766 780759

Trefnydd Hysbysebion

Ann Lewis 01341 241297
Min y Môr, Llandanwg
ann.cath.lewis@gmail.com

Trysorydd

Iolyn Jones 01341 241391
Tyddyn y Llidiart, Llanbedr
Gwynedd LL45 2NA
llaisardudwy@outlook.com

Ysgrifennydd

Iwan Morus Lewis 01341 241297
Min y Môr, Llandanwg
iwan.mor.lewis@gmail.com

CASGLWYR NEWYDDION LLEOL

Y Bermo

Grace Williams 01341 280788
David Jones 01341 280436

Dyffryn Ardudwy

Gwennie Roberts 01341 247408
Susan Groom 01341 247487

Llanbedr

Gweneira Jones 01341 241229
Susanne Davies 01341 241523

Llanfair a Llandanwg

Hefina Griffith 01766 780759
Bet Roberts 01766 780344

Harlech

Edwina Evans 01766 780789
Ceri Griffith 07748 692170
Carol O'Neill 01766 780189

Talsarnau

Gwenda Griffiths 01766 771238
Anwen Roberts 01766 772960

Cysodwr y mis: Phil Mostert

Gosodir y rhifyn nesaf ar Gorffennaf 3 am 5.00. Bydd ar werth ar Gorffennaf 8. Newyddion i law Haf Meredydd cyn gynted â phosib ac erbyn Mehefin 29 fan bellaf os gwelwch yn dda. Cedwir yr hawl i docio erthyglau. Nid yw golygyddion Llais Ardudwy o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir yn y papur hwn. 'Rhydd i bawb ei farn ac i bob barn ei llafar.'



Dilynwch ni
ar Facebook

@llaisardudwy

HOLI HWN A'R LLALL



Enw: Winifred Davies

Gwaith: Wedi ymddeol ers dwy flynedd. Cyn hynny yn Athro Almaeneg a Phennaeth Adran yn Adran Ieithoedd Modern, Prifysgol Aberystwyth

Cefndir

Wedi fy ngeni ym Machynlleth ond wedi treulio 13 o flynyddoedd yn Harlech, pan oedd fy nhad yn ficer yno (Canon Thomas Gomer Davies) rhwng 1966 a 1979. Wedi cael fy addysg yn Ysgol Gynradd Harlech ac Ysgol Ardudwy cyn mynd i Brifysgol Manceinion i astudio Almaeneg a Sbaeneg. Wedyn treuliais bedair mlynedd yn yr Almaen yn dysgu Saesneg cyn cael swydd fel darlithydd Almaeneg ym Mhrifysgol Manceinion. Symudais i Aberystwyth yn 1988.

Sut ydych chi'n cadw'n iach?

Mynd am dro a gwneud ychydig o ioga.

Beth ydych chi'n ei ddarllen?

Dwi'n perthyn i ddau glwb darllen yn Aberystwyth, Clwb Clonc a Phlanc a Chlwb Niclas y Glais. Rydym newydd ddarllen y clasur 'Winnie' gan Sioned Parry yn y cyntaf a *Why I'm No Longer Talking To White People about Race* gan Reni Eddo-Lodge yn y llall. Dwi'n arbennig o hoff o ffuglen hanesyddol – newydd orffen nofel orchestol

Hilary Mantel, *The Mirror and the Light* a rŵan yn cychwyn ar Y Fro Dywyll gan Jerry Hunter. **Hoff raglen ar y radio neu'r teledu?**

Hoff iawn o gyfresi trosedd tramor BBC4, ee Montalbano, *Spiral* a *The Bridge*.

Ydych chi'n bwyta'n dda?

Ydw, ond dim am fy mod i'n gogyddes da. Dwi'n bwyta'n dda am fy mod yn bwyta allan yn aml. Mae llawer o dai bwyta gwych yn Aberystwyth, fel Baravin, Gwesty Cymru, Agnelli's, Medina, Pysgoty neu Ultracomida.

Hoff fwyd?

Pasta hefo saws caws a phupur (cacio e pepe) – yn nodweddiadol o Rufain.

Hoff ddiod?

Gwin o'r Almaen, gwyn neu goch. Yn anffodus, does dim llawer o win coch Almaeneg yn cael ei allforio.

Lle sydd orau gennyh?

Un o fy hoff lefydd ydy Castell y Bere ger Tywyn. Mae Dad a Mam o Fro Dysynni felly dwi'n gyfarwydd iawn â'r lle. Lle arall sy'n agos iawn at fy nghalon ydy eglwys Llanfihangel-y-traethau. Mae'r golygfeydd o'r ddau le yn odidog a mae hefyd ymdeimlad dwfn o hanes yn y lle cynnau yma.

Lle cawsoch chi'r gwyliau gorau?

Dwi wedi cwmpo mewn cariad hefo Rhufain yn ddiweddar – pobl glên, bwyd da a safleoedd archeolegol hynod ddifyr. A mae'n rhoi rhyw wefr i feddwl bod y Rhufeiniaid wedi bod mewn llefydd mor wahanol i Rufain â Thrawsfynydd!

Beth sy'n eich gwylltio?

Agwedd negyddol llawer o bobl tuag at ddwy- ac amlieithrwydd. Yr agwedd bod Saesneg yn ddigon. Dwi'n gwybod o brofiad bod eich profiad o wlad a diwylliant yn hollol wahanol os ydych yn gallu siarad iaith y brodorion. Mae'n siom enfawr i weld y nifer o ysgolion yng

Nghymru sy'n dysgu ieithoedd modern yn crebachu'n gyson.

Pwy yw eich arwr?

Does neb penodol, ond yn ystod y cyfnod ofnadwy yma dwi'n meddwl bod llawer o bobl gyffredin yn gwneud gwaith arwrol i gadw cymdeithas ar ei thraed, yn enwedig gofalfwyr a phawb o fewn y Gwasanaeth Iechyd.

Pwy ydych chi'n ei edmygu yn yr ardal hon?

Dwi'n meddwl bod agwedd Bendigeidfran (a fo ben bid bont) yn un i'w hedmygu!

Beth yw eich bai mwyaf?

Diffyg amynedd.

Beth yw eich syniad o hapusrwydd?

Gyrru i fyny'r arfordir o Aberystwyth ac ar ôl gyrru trwy Bermo gweld Llŷn ar y chwith a'r waliau cerrig ar y dde. Dwi'n teimlo mod i wedi cyrraedd adra er mod i wedi bod yn Aberystwyth ers dros 30 mlynedd.

Eich hoff flodyn?

Briallu. Cof hyfryd gen i o gasglu briallu bob blwyddyn hefo plant yr Ysgol Sul er mwyn gwneud Gardd Basg yn eglwys St Tanwg yn Harlech.

Eich hoff gerddor?

Bruce Springsteen.

Pa dalent hoffech chi ei chael?

Gallu canu yn iawn.

Eich hoff ddywediadau?

Does yr un dyn (na dynes) yn ynys; a fo ben bid bont.

Sut buasech chi'n disgrifio eich hun ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd o achos y feirws corona dwi'n teimlo yn reit ofidus ond fel arall dwi'n mwynhau fy ymddeoliad yn fawr iawn. Roeddwn yn mwynhau fy swydd ond dwi'n mwynhau y rhyddid rŵan i ddarllen mwy er pleser, i ddysgu iaith arall (Eidaleg ar hyn o bryd), treulio mwy o amser gyda theulu a ffrindiau a gwirfoddoli (dwi ar fwrdd rheoli Gwasg Menywod Cymru Honno).

YN EISIAU

TREFNYDD TANYSGRIFIO

Diolch i Haf Meredydd am wirfoddoli i ofalu am bostio'r papur bob mis. Rydym yn dal i chwilio am rywun i ofalu am anfon biliau a chadw'r cyfrifon perthnasol.

Mae ôl-rifynnau
Llais Ardudwy
i'w gweld ar y we.
Cyfeiriad y safle yw:
[http://issuu.com/
llaisardudwy/docs](http://issuu.com/llaisardudwy/docs)

Llais
Ardudwy

SAMARIAID

LLINELL

GYMRAEG

08081 640123

LLANFAIR A LLANDANWG

Grŵp celf

Mae aelodau Grŵp Celf Llanfair yn dal i beintio ac yn rhannu eu gwaith. Er bod yr aelodau yn hunan-ynysu, maen nhw'n derbyn her bob pythefnos. Ymhlith y testunau diweddar yr oedd cennin Pedr, golygfeydd a blodau. Bu'r Grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd bob pwnn Mercher yn Neuadd Llanfair ers 50 mlynedd.

Dyma lun o Landanwg gan Jan Spicer, un o'r aelodau.



HEN LUNIAU



Dyma dri llun a anfonwyd atom gan Iola Jones, Rhosfawr [merch y diweddar Dorothy, Stephens gynt, o Faesygarneidd, ac Ieuan Jones]. Tynnwyd y lluniau gan rhyw deulu Owen o Birmingham yn 1930. Tybed a oes un o ddarllenwyr Llais Ardudwy yn gwybod unrhyw beth am y bobl yn y lluniau?



R J WILLIAMS IZUZU
Talsarnau 01766 770286
TRYCIAU IZUZU



CYFREITHWYR BREESE GWYNDAF



MEWN STRACH? MAWR NEU FACH? CYSYLLTWCH Â NI
Trawsgludo Tai a Busnesau · Ewyllysiau · Profiant
Hawliad Iawndal · Niwed Personol · Materion Sifil
Ysgariad a Theulu · Cyfraith Amaethyddol · Troseddau di-annod

Apwyntiadau ar gael yn eich cartref, gyda'r hwyr
neu ar y penwythnos drwy drefniant

PORHTHADOG
01766 512214/512253
60 Stryd Fawr

PWLLHELI
01758 612362
Adeiladau Madoc
office@bg-law.co.uk

ABERMAW
01341 280317
Stryd Fawr



Yn gweithredu ar ran y gymuned ers dros 150 o flynyddoedd ...

LLANBEDR, CWM BYCHAN A NANTCOL

Merched y Wawr, Nantcol
Cynhaliodd Merched y Wawr 'Wyl Haf Rithiol' ar Mai 16 gan i'r Wyl Haf ym Machynlleth gael ei chanslo oherwydd yr amgylchiadau presennol. Braf oedd gweld bod Cangen Nantcol wedi ennill clod yn y gystadleuaeth am Raglen Orau 2019-20.



Mair Thomas, ysgrifennydd y gangen gyda'r dystysgrif



**Beti Miller
Cangen Nantcol**

Hefyd, gwelwyd llun blodau eisin yr oedd Beti Miller wedi eu creu ar ffurf het ar raglen Prynawn Da wrth i Ferched y Wawr lansio ymgyrch 'blodau gobai' i greu enfys fawr o obaith yr haf nesaf.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn ag Iona, Gwenda a Lorraine, Bryndeiliog, yn eu profedigaeth o golli cefnder iddynt sef Thyrlus Hughes o Cannock yn 84 oed.

Marwolaeth
Bu farw Mrs Rhiannon Rosser yn Ysbyty Glan Clwyd y 81 oed. Bu am gyfnod yn y chwedegau yn athrawes yn ysgol gynradd Llanbedr. Yr oedd yn ferch i weinidog Horeb ar y pryd, y Parch John Williams. Bu'n derbyn y Llais ers blynyddoedd trwy garedigrwydd ffrind iddi. Cydymdeimlwn â'i theulu yn eu colled.

Adar prysur
Yn ystod y tywydd braf 'ma rwyf yn eistedd ar fainc i fwynhau fy mhanad te deg yn gwyllo titw tomos las sydd wedi nythu mewn bocs ar dalcen tŷ boiler. Mae'r ddau yn brysur yn cario bwyd i'w cywion; hwyrach 'nad ydynt yn hau, nac yn medi', ond maent yn gweithio'n galed iawn. GJ

Cath ar goll
Mae Jenny Wynne, Glyn Artro, wedi dod o hyd i gath ddu a gwyn eithaf ifanc yn y beudy ar y fferm. Mae'n amlwg fod y gath ar goll, felly a oes rhywun yn gwybod pwy sydd wedi ei cholli ac yn chwilio amdani? Os felly, cysylltwch â Jennifer Brookwood ar 01341 241517 neu ar yr e-bost jgbrookwood@icloud.com



**Tudalen FB - The Harp Channel
1. Cyfarfod Sêr y Delyn:
OSIAN ELLIS**

Mae'r fideo yma'n rhoi hanes y telynor arbennig Osian Ellis, a fu ar un pryd yn byw yn Llanbedr, ond sydd bellach yn byw ym Mhwillheli. Fel telynor, fo ysbrydolodd Benjamin Britten i ysgrifennu ei gyfansoddiad enwog ar gyfer y delyn, ei 'Suite', yn ogystal â chyfansoddiadau eraill. Mae'n bosib i chi wrando ar berfformiad Osian Ellis yn ystod 3ydd Gŵyl Telynu'r Byd ar <https://youtu.be/Chr4yDQQLq4> Mae Osian Ellis hefyd yn dal i gyfansoddi a dyma un o'i weithiau mwyaf diweddar - Lachrymae, darn newydd ar gyfer y delyn. Gallwch glywed Osian ei hun yn canu'r darn yma yn y fideo cyffrous newydd yma. Cyhoeddir y gwaith gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn ac mae copi o'r gerddoriaeth ar

gael i'w lawrlwytho ar www.gwynn.co.uk Cyflwynir y gwaith yma er cof am Llinos, ac fe'i cyfansoddwyd ar adeg trist iawn pan yr oedd hi'n derbyn triniaeth canser yn yr ysbyty a thra bod ei mam, Glynis, yn eistedd wrth ei hochr, ddydd a nos, hyd ei marwolaeth ym mis Tachwedd 2018, yn 39 oed. Mae'r darn yma a gyfansoddwyd yn adlewyrchu'r gofid ar boen, ond hefyd yn adlewyrchu llanw a thrai bywyd ac atgofion am blentyndod.

Ystyrir Osian Ellis nid yn unig fel telynor rhyngwladol rhagorol ond hefyd fel un o gerddorion mwyaf nodedig yr 20fed ganrif. Yn 17 oed, derbyniodd Ysgoloriaeth Joseph Parry i astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol, Llundain, ac yn ddiweddarach fe'i benodwyd yn Athro yno ar y delyn, swydd y bu ynddi am dros 30 mlynedd. Yn 1960 fe'i benodwyd yn Brif Delynor Cerddorfa Symffoni Llundain, ac yn ystod y 30 mlynedd canlynol perfformiodd yn eang ledled y byd gyda'r gerddorfa ac hefyd fel unawdydd a thelynor siambr gydag Ensemble adnabyddus Melos. Cyfansoddodd llawer o brif gerddorion y dydd, yn cynnwys Benjamin Britten, William Mathias ac Alun Hoddinott, gerddoriaeth yn arbennig ar ei gyfer. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: gwynn@gwynn.co.uk



Rhai o aelodau Teulu Artro yn yr amser a fu

PEN-BLWYDD 'HOFFNUNG' CEFFYL SIGLO YN HUCHENFELD



Y mis hwn mi fydd Grŵp Llanbedr-Huchenfeld yn anfon cerdyn pen-blwydd gan bobl Llanbedr i Hoffnung, ceffyl siglo yn Huchenfeld fydd yn 26 oed eleni. Yn anffodus, oherwydd y feirws Covid, ni fydd Hoffnung yn dathlu ei ben-blwydd fel yn y blynyddoedd cynt.

Roedd Hoffnung yn syniad gan Wing Commander John Wynne a gollodd bump aelod o'i griw yn Huchenfeld yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Anfonwyd y ceffyl siglo i blant y Kindergarten yn Huchenfeld fel symbol o gymod a maddeuant. Mi gyrhaeddodd Hoffnung ar y 19eg o fis Mehefin 1994 (pen-blwydd hefyd Ben, mab John a Pip Wynne) a bob blwyddyn wedyn mae plant y Kindergarten wedi bod yn dathlu pen-blwydd Hoffnung efo parti, yn canu ac yn dawnsio ac, y peth pwysica, maen nhw'n rhoi basged fawr o foron fel anrheg i Hoffnung!

Llynedd mi gafodd Hoffnung ben-blwydd arbennig ... yn 25 mlwydd oed. Ond nid ei ei oed oedd yr unig beth arbennig. Fel rhan o'r dathliadau mis Mehefin diwetha, mi gododd pobl Huchenfeld garreg goffa i John Wynne a fu farw blwyddyn yn ôl. Lleolir y garreg gyferbyn â'r plac er cof am griw John Wynne, ar wal allanol Eglwys Huchenfeld.



Mae'r llun yn dangos y garreg goffa, maeres Huchenfeld Dr Sabine Wagner, merch John a Pip Wynne, Elisabeth Grant, a'i phlant hi, William a Tasey. Y geiriau ar y garreg yw: "Huchenfeld a Llanbedr. Er cof am ein ffrind ni, John Wynne 1921 – 2018."

DYDDIADUR GARDDIO



23 Ebrill

Newid o'r ardd heddiw a mynd am dro i fyny i Landecwyn. Diwrnod arall hynod o braf a'r haul yn gynnes iawn. Digon o flodau'r gwanwyn ym môn y perthi - briallu, clychau'r gog, blodyn y gwynt ddim ond i enwi rhai, ond roedd y sioe orau yn ein haros yng nghoedwig Barcdy. Carpedi o glychau'r gog yn garped glas ymhob man a'r arog yn fendigedig. Does dim i guro'r sioe flynyddol yma yn nunlle. Sgwrs hefo hwn a'r llall ar y ffordd adre ac i goroni'r cwbl clywed y gog am y tro cyntaf i fyny yng nghyffiniau Eglwys Llandecwyn a dim dimai goch yn fy mhoced – blwyddyn arall dlawd mae'n beryg! Er fod ei chân yn undonog mae rhywbeth cynhyrfus iawn wrth ei chlywed am y tro cyntaf sy'n gwneud i ni deimlo fod y gwanwyn wedi cyrraedd. Rydym eisoes wedi gweld y wennol yn hedfan o gwmpas y tŷ, braf ei chroesawu hithau yn ôl i'r ardal wedi'r gaeaf hir a gwlyb. Gobeithio fod hyn yn dro ar fyd ynghanol y problemau sydd o'n cwmpas a'r gobaith am bethau gwell i ddod.

Dechrau Mai

Mis Mai wedi cyrraedd a'r tywydd yn dal yn gynnes a braf. Dipyn o waith dyfrio erbyn hyn gan fod y llysiau angen eu dyfrio yn ddyddiol yn y gwres yn enwedig y tatws cynnar sydd mewn bagiau. Ni fyddaf byth yn dyfrio'r blodau sydd wedi hen sefydlu yn y pridd ers blynyddoedd; y rhesymeg am hyn yw fod dyfrio yn annog i'r gwreiddiau godi i'r wyneb yn lle mynd ar i lawr i chwilio am ddŵr.



Jack, fy wŷr, wedi bod yn plannu'r ffa dringo mewn canol toilet rolls; mae digon o ddyfnder

yn y rhain ar gyfer y gwreiddiau dyfnion a gallwch blannu'r cwbl heb styrbio'r gwreiddiau. Byddwn yn eu gosod mewn boc yn dynn at ei gilydd cyn eu rhoi yn y tŷ gwydr i egino cyn eu plannu allan ym mis Mehefin pan fydd perygl o rew wedi mynd. Fe fydd angen paratoi rhes a gosod ffrâm ddringo ar eu cyfer. Mae'n syniad gosod papur newydd neu hen gompost wedi pydru yng ngwaelod y rhes i gadw lleithder. Edrychwn ymlaen at gael cynhaeaf da gan fod y teulu i gyd yn eu mwynhau. Mae planhigion tomatos Gwenda eisoes wedi eu rhoi yn y baciau tyfu. Byddaf yn gosod y bag ar ei ochr er mwyn cael mwy o ddyfnder cyn torri dau sgwaryn yn y top – un i bob planhigyn. Ni fyddaf yn eu bwydo hyd nes bydd y tomtos wedi 'setio' ac yn dechrau chwyddo. Mae'n syniad da chwistrellu blodau'r planhigion sy'n gymorth i'w peillio.

Penwythnos Gŵyl y Banc

Erbyn hyn mae'r planhigion bach ciwcymerau yn gwmni i'r tomatos yn y tŷ gwydr. Rwyf wedi plannu dau blanhigyn, fydd ymhen amser gobeithio, yn ddigon i fwydo'r teulu i gyd. Mae'r rhain wedi eu plannu mewn potiau gan ei bod yn haws gennyf eu dyfrio o'r gwaelod gan fod hyn yn atal y goes rhag pydru – problem hefo ciwcymerau os byddant yn cael eu plannu'n rhy ddwfn.

Mae'r ardd yn llawn blodau ac wedi mwynhau'r ychydig o law gawsom yn ystod yr wythnos ond bechod fod y gwynt mawr wedi dod i'w chwipio a'u malu. Byddaf yn edrych ymlaen bob blwyddyn i weld y rhosyn mynydd coch yn blodeuo ond yn ddiamau bron fe ddaw gwynt a glaw i'w difetha cyn wired a'u bod yn eu llawn blodau. Er hynny maent yn werth eu plannu a'u mwynhau tra byddant. Edrych ymlaen rŵan i eistedd yn ôl am ychydig yn yr haul i fwynhau y gwaith o baratoi a mwynhau bwyta ffrwyth ein llafur yn yr ardd llysiau a'r tŷ gwydr.

Margaret Roberts

CYFNOD Y GOFID



Enfys - y symbol sy'n cynrychioli ein gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth iechyd a'r Gofalwyr.



Y ffyrdd yn weigion.



Pobl Cae Gwastad, Harlech yn cymeradwyo'r Gwasanaeth Iechyd a'r Gofalwyr.

Lluniau: Carol O'Neill



Llun: Linda Soar - dyma waith Lisa Rayner sydd i'w weld y tu allan i Siop y Morfa, Harlech.




Gatiau wedi eu cau.



Meysydd gweryslla a charafanio wedi cau.

Lluniau: Darren Williams



Llun: Mai Roberts - craf y geifr [garlleg gwyllt] yng nghoed Meifod Uchaf - gwledd i'r llygaid wrth fynd am dro i godi calon.



Y maes parcio ger traeth Harlech wedi cau.

Llun: Carol O'Neill



Meirion Griffiths yn gwisgo mwgwd i wneud ei siopa.



Golffio gofalus!



Sgwâr Harlech a neb ar y stryd yn siopa.

MEWN LLUNIAU



Neb ar draeth Llandanwg.




Neb ar lwybr cyhoeddus.

Lluniau: Iwan Morus Lewis



Llun: Anwen Roberts - teulu Tallin yn mynd am dro



Arwyn Williams ar locdown

Daeth teithiau anturus arferol Arwyn i'w hoff fynyddoedd i ben am y tro a'r dyddiau yma ma'n gorfod bodloni ar grwydro'r gwastadedd o gwmpas ei gartref yn yr Ynys. Diolch iddo am y llun gwych yma o'r traeth.



Bu canmol mawr i staff Siop y Morfa am eu gwaith dygn yn helpu eu cwsmeriaid. Yn y llun fe welir Hope a Jade yn gwisgo'u mygydau.



Dyma Llio Williams, merch Einion a Rhian Roberts, Dyffryn yn ei gwaith yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, wedi derbyn y dillad angenrheidiol. Roedd mor boeth ar un dydd Sadwrn yn ei gwaith, meddylodd wir ei bod wedi colli 'stone in a day' chwedl â Peter Kay!



Jean (Roberts), Dyffryn druan. Yn anffodus, rhoddodd ganiatâd i John dorri ei gwallt! Beth oedd ar ei phen hi? Wel - dim llawer erbyn hyn. Pan ffoniodd y teulu i holi sut aeth y driniaeth - 'mae hi yn y bath, yn crio' oedd yr ateb a gafwyd. Pan welsom Jean y diwrnod canlynol, ei hymateb cadarnhaol oedd, 'Mae'n siŵr o dyfu'. Ac mae'r ddau'n dal i siarad efo'i gilydd!

DYFFRYN ARDUDWY A THAL-Y-BONT



Profiad o'r Coronafeirws

Diolch yn fawr i Marc Jones, sydd â'i wreiddiau yn Ardudwy, am yr isod. Meddai Marc: "Cafodd nain, Lena Edwards, ei magu efo'i pedwar brawd yn Hendre Fechan, Tal-y-bont, a taid, y Capten Tom Davies, yn Henborth Mawr, Tal-y-bont. Wedi blynyddoedd yn byw yn Lerpwl daeth y ddau adre i fyw yn Hendre Fechan efo Mam (Nerys) a'i brawd Arthur. Roedden ni fel plant yn dod i Hendre Fechan bob gwylia ysgol ac yn ddiweddarach fues i'n gweithio yn y Vic, Llanbedr, am dri haf.

Y Coronafeirws

Dechreuodd y peswch cynta ddiwedd fis Mawrth. Roedd y ddau fachgen adre unwaith eto oherwydd y *lockdown* ac erbyn cychwyn mis Ebrill roedden nhw a Cath, fy ngwraig, yn diodde' o'r symptomau. Gan ei bod hi'n nyrs yn Ysbyty Wrecsam Maelor, cafodd y tri eu profi a dod yn ôl yn gadarnhaol. Roeddwn i'n hanner gobeithio mod i am ei osgoi - ond es i lawr wythnos yn ddiweddarach.

Mae'r symptomau'n amrywio ond yn eu plith roedd peswch, gwres, rash ar y dwylo, methu blasu a theimlo'n sâl. Wedi pythefnos, byddai rhywun yn disgwyl i fflw normal fod wedi pasio ond mi aeth hwn yn ei flaen.

Roedden ni'n ffodus mewn un ffordd - aeth yr un ohonon ni i'r ysbyty a gorfod cael triniaeth fel hynny. Rhaid i mi gyfadde' i ni gael un noson brawychus efo fy ngwraig yn teimlo'n sâl iawn - fel pe bai ei chorff yn methu - ond gwrthododd fynd i'r ysbyty a daeth hi drwy'r peth adre. Rhaid deud fod nyrsus yn gwneud cleifion gwael iawn!

Wedi'r gwaetha' roedden ni'n disgwyl medru dychwelyd i'r gwaith ond roedd pyliau o fethu gwneud dim, gorfod cysgu o hyd a teimlo'n llipa yn taro pawb. Aeth hwn yn ei flaen am wythnosau hefyd efo Lewis, y bachgen ienga, a Cath yn dioddef waetha'.

Mae hi'n saith wythnos ers y pesychiad cynta 'na a dim ond rwan mae pawb yn ôl yn y gwaith neu'n sefyll arholiadau. Er hynny, mae o wedi'n siglo ni fel teulu ac mae'r cyfarchiad boreol o 'Sut wyt ti?' bellach yn gwestiwn go iawn.

Rydan ni'n dal i hiraethu am ymweld â lan môr Ardudwy - gwyllo'r haul yn machlud yn Llandanwg neu crwydro Cwm Bychan ac ar lannau'r afon Ysgethin. Ond mi fedrith hynny aros tan ei bod hi'n ddiogel gwneud. Mae 'na lawer wedi dioddef mwy na ni ac yn dal i ddioddef - faswn i'm yn dymuno i neb fynd drwy'n profiad ni heb sôn am orfod mynd i'r ysbyty.

SIOP MEIRION CRYDD

Byddai amryw yn mynd at Meirion i gael hoelion yn eu hesgidiau. Roedd hogia'r pentref yr adeg honno wrth eu boddau yn mynd yno i gael sgwrs o flaen y tân yn y stôf fach oedd ganddo.

Mae Mai Roberts yn cofio ei mam yn mynd yno i gael hoelion yn ei sgidie cyn iddi gerdded i fyny'r Wyddfa. Roedd y merched yn cael eu 'wellingtons' ganddo.



Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus iawn i Margaret Pauline Jones, Tan y Bryn, 4 Llwyn Ynn a oedd yn 80 oed ddydd Llun, 18 Mai. Cofion cynnes oddi wrth y teulu a'i ffrindiau i gyd.

Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth dau o blant y Dyffryn yn ystod mis Mai.

Ar Fai 13, yn Ysbyty Glan Clwyd, hunodd Rhiannon Eilian Rosser, merch y diweddar Barch a Mrs John Williams, Broneirian yn 81 mlwydd oed. Mae llawer ohonom yn ei chofio'n dda ac mae gennym atgofion melys am gymeriad addfwyn iawn. Bu'n ffyddlon iawn i aduniad blynyddol Ysgol Ramadeg y Bermo gan deithio o'i chartref ym Mhen-y-ffordd. Cydymdeimlwn â'i merched Eilian, Rhian a Siwan a'i hwyron a'i hwyresau yn eu profedigaeth.

Ar Fai 14, bu farw Thyrlus Hughes (Bryn Awelon gynt) o Pye Green, Cannock yn 84 mlwydd oed. Bu Thyrlus yn gweithio i'r Cyngor yn y Bermo am flynyddoedd lawer. Cofiw'n amdano fel gŵr bonheddig, siriol bob amser. Roedd yn frawd annwyl i Audrey a John a'r ddiweddar Eirlys a Muriel. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Rhodd £10 - di-enw



Mwy o giatiaau Ardudwy

Diolch i Raymond Owen am yrru'r llun yma o giât draddodiadol arall yn Ardudwy. Mae'r giât dan sylw yn arwain i Goed Gors o ffordd Bellaport. Meddai Raymond:

"Mae'r giât yma yn agos i fynedfa Bellaport. Rwy'n mynd heibio hi bron yn ddyddiol y dyddiau Covid dyrys yma. Tipyn o dyfiant y naill ochr a'r llall, er mae'n bosib mynd drwyddi hefyd. Handi os byddaf ar y beic. Mae yna giât i gerddwyr wrth ei hochr. Trawiadol yw'r patrwm ar y gwaelod."

Os byddwch chi wedi digwydd sylwi ar hen giât, yn un blaen neu'n drawiadol, yn yr ardal hon wrth grwydro, cofiwch yrru llun neu ddau, ei lleoliad, a dipyn o'i hanes os ydych yn gwybod unrhyw beth am y lle neu'r adwy.



Smithy Garage

Dyffryn Ardudwy, Gwynedd



Tel: 01341 247799

www.smithygarage-mitsubishi.co.uk

 smithygaragedyffryn  smithygarageltd  Motability



Ar gael ar delerau 0% hurbrynu dros 3 blynedd heb unrhyw isafswm ernes

Teyrnged i Lilian Edwards



Mae taith bywyd yn dechrau yn y cartref wrth gwrs ac mi roedd Lilian yn ddiolchgar dros ben am ei magwraeth. Fe'i ganwyd ym Mehefin 1923, yn unig blentyn i David a Margaret Edwards, Morwylfa, Dyffryn Ardudwy. Cartref yn llawn hapusrwydd a cherddoriaeth oedd Morwylfa a chafodd feithrinfa arbennig gan ddysgu yn ifanc am bwysigrwydd y capel, cymdeithasau ac eisteddfodau. Roedd ei thad yn hyfforddi yn gyson gyda drws agored i unrhyw un oedd angen help. Mae nifer yn dal i gofio cael eu hyfforddi ar gyfer eisteddfodau lleol tra fod eraill yn cofio'r gwersi Tonic Solffa. Dyma'n wir "ysgol gerdd" y cyfnod yn Nyffryn Ardudwy! Gyda'r holl ymarfer roedd angen rhywun wrth y piano; Lilian May oedd y dewis amlwg a chafodd ei hun yn y tresi yn ifanc. Cafodd foddhad mawr wrth gyfeilio a chyn dyddiau coleg roedd eisoes yn cyfeilio i gorau meibion a chorau cymysg. Ar ôl ennill cymwysterau Gwyddor Cartref yn y coleg, bu'n dysgu yn Sir Fôn cyn cael cyfle i ddychwelyd i Feirion. Cafodd swydd yng Nghorwen i ddechrau ac yna ysgolion eraill o fewn y sir. Yn y pumdegau hwyr ad-drefnwyd addysg uwchradd ym mro Ardudwy ac agorwyd Ysgol Ardudwy, Harlech. Miss Edwards oedd yr athrawes Gwyddor Tŷ ac yno bu'n gwasanaethu yn ddiwyd tan ddiwedd ei gyrfa. Mae Cyril Jones, a fu'n brifathro arni am gyfnod, yn cofio "ei hymroddiad a'i gwaith da yn yr Adran Gwyddor Tŷ ac fel Dirprwy

Brifathrawes." Ychwanega iddi "bob amser fod yn fawr ei gofal am les a diogelwch y disgyblion."

Yn ei horiau hamdden, yn naturiol ddigon, roedd cerddoriaeth yn chwarae rhan bwysig. Roedd Lilian yn cofio cyfnodau cyffrous yn hanes cerdd y fro ac fel oedd trefnyddion cerdd y sir yn canmol "ansawdd lleisiau'r fro". Cofiai am berfformiad o'r Meseia yng Nghapel Caersalem Y Bermo. Daeth corau lleol at ei gilydd ar gyfer y perfformiad, dan arweinyddiaeth John Hughes, â Charles Clements wrth yr organ. Un o'r pleserau mawr i Lilian oedd cyfeilio i Gôr Dyffryn yn yr ymarferion. Mae 'na hanesyn bach doniol amdani yn ystod ei chyfnod yng Nghorwen. Er mwyn nôl y gyfeilyddes o Gorwen rhywnos Wener ar gyfer ymarfer, dyma ddefnyddio "despatch rider" i fynd i'w nôl. Glyn Edwards oedd hwnnw ac er fod Lilian yn trystio Glyn, doedd hi ddim mor siŵr o'r motobeic. Mi dorrodd y tsiaen ond yn ffodus, roedd Glyn yn adnabod ffermwyr yr ardal. Cafwyd perswâd ar un i drwsio'r tsiaen a chyrrhaeddodd Lilian yr ymarfer mewn pryd! Roedd gan gerdd dant ei apêl hefyd a bu'n cynorthwyo parti O T Morris trwy drosi'r hen alawon telyn o hen nodiant i solffa. Mi roedd ganddi ddoniau cerddorol amrywiol felly ond doedden nhw ddim yn ymestyn i arwain chwaith! Rhoes gynnig arni yn Aelwyd yr Urdd. Anobeithiol, yn ôl Lilian, a segur fu'r baton wedi hynny!! Sticiodd at y cyfeilio. Ni ellir sôn am ei chyfraniad fel cyfeilydd heb roi sylw i'w gwasanaeth i Gapel Rehoboth. Mae Adroddiad yr Eglwys am 1937 yn nodi mai hi oedd un o'r cyfeilyddion. Pedair ar ddeg oedd hi ar y pryd. Bu'n un o'r cyfeilyddion tan 2004, cyfnod ychydig yn brin o 70 mlynedd. Mae cofnodion pwyllgor a gynhaliwyd yn 1967 yn nodi taw Lilian oedd y Prif Organydd gyda chyfrifoldeb i drefnu pwy oedd i chwarae yn yr oedfaon a'r Ysgol Sul. Roedd Lilian bob amser am roi cyfle i'r rhai ifanc ymarfer eu crefft a doedd hynny ddim yn wir ym mhob

capel. Bu'n un o swyddogion yr eglwys hefyd ac fe'i hetholwyd yn Ysgrifenyddes y Pwyllgor Bugeiliol yn 1955, swydd y daliodd am nifer sylweddol o flynyddoedd.

Fel gyda'r capel, bu sefydliadau eraill yn y fro yn agos at ei chalon ar hyd ei hoes. Pan sefydlwyd Aelwyd yr Urdd bu'n ysgrifenyddes am gyfnod ac mi roedd yn cofio am lwyddiannau'r aelwyd mewn eisteddfodau. Bu'n ysgrifenyddes Pwyllgor y Carnifal hefyd ac yn cofio am yr hwyl a'r gwisgo fyny. Doedd Lilian ddim yn siŵr a oedd y page boys yn gwirioni llawn cymaint â'r merched! Bu'n weithgar gyda changen Nantcol o Merched y Wawr, yn Llywydd ar ddau achlysur. Roedd hefyd ymhlith y rhai aeth ati'n llwyddiannus i sefydlu Cangen yn y Bermo ac mi roedd bob amser yn diolch i ferched Parc Y Bala am eu gweledigaeth. Fe'i perswadiwyd i gymryd llywyddiaeth Teulu Ardudwy a gyfarfu yn y neuadd i ddechrau cyn symud i lolfa Pentre Uchaf. Cafodd foddhad a hwyl fel aelod o'r "Teulu" a dod ar draws rhai o gymeriadau'r pentref. Ar achlysur ei phen-blwydd yn nawdeg, cyfeiriodd Gomer Roberts ati fel "seren y teulu". Ar ei gerdyn cyfarch, roedd yr englyn isod:

Ni ddown at hon yn ddioed - un hynaws,
Un hynod ysgafndroed,
A seren clwb yr henoed,
Un deg iawn yn nawdeg oed.

Ar ôl ymddeol, ymaelododd â Sefydliad y Merched, Dyffryn Ardudwy, yr unig gangen ar hyd yr arfordir oedd yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros y blynyddoedd, gwanhau wnaeth yr aelodaeth, ond daliwyd ati, gyda chriw bychan yn cyfarfod yn Heulwen, Glanysgethin, cartref Greta Cartwright. Gwn o brofiad am y croeso a'r lletygarwch oedd yno. Ym mlynedd oedd olaf y gangen, roedd Lilian yn Is-lywydd a Thrysorydd ac yn paratoi ambell ysgrif ar gyfer cylchgrawn y sefydliad sef Brethyn Cartref. Bu'n aelod o'r Clwb Garddio hefyd gan gofio'n dda am Richard Bowering yn cymryd y clwb yn festri Capel Wesla. Gwnaeth elwa o'r

dosbarthiadau gan iddi ennill y *Silver Salver* ddwy waith yn y sioe. Goroesodd y sgiliau garddio gyda'r blodau o flaen Tan y Bryn yn brawf o hynny! Tan y Bryn fu'r cartref am gyfnod olaf ei hoes ond bu yna aelwyd gynnes a chroesawgar yn Elidir, Dyffryn Ardudwy cyn hynny. Symudodd i Dal-y-bont yn 2005 ac mi roedd byw ar draws y ffordd i Sarah, ei nith, a Dave yn gaffaeliad a chysur iddi, yn enwedig pan nad oedd yr iechyd fel ag yr oedd. Mawr fu eu gofal o "Anti Lil" ar hyd y blynyddoedd. I ymwelwyr, cynnes bob amser oedd ei chroeso a difyr y sgwrs. Parhau wnaeth hynny, hyd yn oed ar ôl gorfod cefnu ar Tan y Bryn a symud i gartref gofal. Er fod henaint yn tynhau ei afael, ni bylodd diddordeb Lilian yng ngweithgareddau'r ardal. Roedd y "pethe" pwysig y dysgodd amdanynt ar aelwyd Morwylfa yn dal i gael ei sylw gyda chanmoliaeth i'r rhai oedd yn weithgar yn eu cymunedau. Yn ei thro, hael fu ei chyfraniad hithau i'w chymuned a gellir dweud gyda sicrwydd, "i'w bro rhoes hon o'i gorau".

Raymond Owen

Isod gwelir cerdd a ysgrifennwyd gan Raymond Owen i gyfarch Lilian ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

Lilian May

Bro seintiau a'r Mabinogi,
Yma cewch 'i hatgofion hi;
Bro mynydd ac awelon môr
A seiniau côr yn canu.

Câi arddel ei Chymreictod
Mewn oedfa ac mewn 'steddfod;
O'i magwraeth maen ddyledus,
Un lwcus o'i phlentyndod.

Môr Wylfa, môr o ganu,
Diddiwedd yr hyfforddi,
I Lilian Mai, dim dianc,
Mor ifanc yn y tresi.

Cyfeiliodd i bartïon
Unawdwyr a chôr meibion;
O ddeuawdau i gôr cymysg,
Bod yn eu mysg oedd foddion.

I'w bro rhoes hon o'i gorau.
Aelod gwerthfawr cymdeithasau,
O'r WI i Ferched y Wawr,
Mor fawr ei chyfraniadau.



Ar y teledu

Braf gweld Celyn, wyres Benjie a Margaret Williams, Cilfor ar raglen 'Gardeners' World' y BBC ar nos Wener yn ystod y mis. Roedd Celyn wedi anfon clip fideo ohoni yn hau hadau cyn eu tyfu ymlaen yn blanhigion. Roedd wedi gosod stondin yn yr ardd gan gynnig y planhigion i unrhyw un a fyddai'n dymuno eu cael wrth fynd heibio. Derbyniwyd dros 3,000 o glipiau fideo gan y rhaglen - dipyn o gamp iddi hi gael ei dewis gan mai dim ond 6 oed yw hi. Calondid yw gweld plentyn ifanc fel hyn yn ymddiddori ym myd natur - wedi etifeddu dawn ei Thaid yn amlwg - dalier ati. Mewn camp arall fe dderbyniodd her 2.6k Marathon Llundain, gan gerdded 2.6 milltir o gwmpas ei hardal a mynd â 26 o flodau haul gyda hi gan adael un blodyn i bawb oedd yn cyfrannu er budd yr Ambiwlans Awyr. Casglodd £260 at yr achos da hwnnw hefyd. Merch brysur iawn.

Capel Newydd

Rydym yn parhau i addoli Duw! Mae croeso i chi ymuno hefo ni ar fore Sul am 10:30 ac ar nos Fercher am 7:30 ar Skype. Rydym yn darlledu ein oedfaon nos Sul ar ein safle we (capelnewydd.org) ac ar Youtube (eglwys efwnglaidd ardudwy). Mae croeso mawr i chi ffonio 01766 770953 neu e-bostio ar dewi_lewis@sky.com am fwy o fanylion neu am sgwrs!! Er gwaetha'r Pandemig, mae rhai pethau yn aros 'run fath o hyd - Iesu Grist, ddoe, heddiw yr Un, ac yn dragywydd!



Alis Glyn a'i chyfansoddiad 'Ar ôl hyn'

Yn ystod y cyfnod cloi yma, mae Alis Glyn sy'n 13 oed ac sy'n byw yng Nghaernarfon, wedi cyfansoddi cân yn dwyn y teitl 'Ar ôl hyn'. Mae Alis yn ferch i Glyn a Rhian Tomos, ac yn wyres i Mathew a Mai Jones, Llandecwyn. Mae'r gân wedi cael ei chwarae ar Radio Cymru ac ar y rhaglen 'Heno' ar S4C. Mae Alis wrth ei bodd yn cyfansoddi ac yn creu fideos i'w rhoi ar ei sianel ar YouTube. Enw'r sianel ydy Alis Glyn a'i bwriad, wrth greu'r sianel, oedd cael mwy o ddeunydd Cymraeg ar gyfer pobl ifanc ar YouTube. Llongyfarchiadau gwresog i ti, Alis, ar y gân hyfryd a dal ati i gyfansoddi.

Gôl y Mis

Llongyfarchiadau calonnog i Owen Jac o Penrhyn (mab Nerys, Yr Ynys gynt) ar ennill Gôl y Mis yng nghystadlueaeth Gôl-Ona y rhaglen Heno. Yn ôl y beirniad, Malcolm Allen, mi oedd gôl Owen yn wahanol i unrhyw un arall y mae wedi eu gweld drwy gydol y gystadlueaeth, a'r sgiliau a'r gic ar y foli i gefn y rhwyd yn rhagorol. Da iawn, Owen - dal ati i ddatblygu dy fedrau pêl-droed, a phob llwyddiant yn y dyfodol.

DIONI

Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

R J Williams Honda Garej Talsarnau Ffôn: 01766 770286



Ennill gwobr

Hefyd, mae Rhian Tomos, mam Alis Glyn, a merch Mathew a Mai Jones, Llandecwyn wedi ennill gwobr yn y Brifysgol ym Mangor. Mae Rhian yn ddarlithydd yn yr Ysgol Addysg ac yn Gyfarwyddwr Marchnata a Recriwtio'r Ysgol Addysg, ac eleni cafodd ei henwebu gan y myfyrwyr ar gyfer y wobwr Addysg trwy Gyfrwng y Gymraeg a chyrraedd y rhestr fer, ac yna penderfynodd y panel dyfarnu roi'r wobwr iddi hi. Llongyfarchiadau mawr i ti Rhian a dal ati efo'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn y Brifysgol.

Genedigaeth

Newyddion braf oedd clywed bod Gwion a Gwyneth Davies, Draenoga' wedi dod yn nain a thaid eto pan anwyd Swyn Aur ar 28 Ebrill, merch fach i Eleri a John Thomas, 1 Morfa Mawr, Llanbedr, a chwaer fach i Ilan. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r teulu i gyd.

DIOLCH

Diolch i ddarllenwr di-enw am rodd o £50 i Llais Ardudwy.

EISTEDDFOD ARDUDWY

Dros y we, cyfarfu criw o Bwyllgor Eisteddfod Ardudwy ar nos Iau, Mai 21ain. Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd na chynhelir Eisteddfod Ardudwy 2020 oherwydd yr ansicrwydd gyda threfniadau'r feirws felltith yma.

Deallwn y byddwn yn siomi nifer ohonoch eleni a hoffem ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth barod, gan obeithio y cawn ddatlu doniau lleol yn Eisteddfod Ardudwy ym mis Hydref 2021.

BEICIO MYNYDD



Mae'n siŵr bod nifer ohonoch chi – fel fi – wedi bod yn twtio'r garej neu'r sied yn ystod yr wythnosau diwethaf. Hwyrach bod rhai ohonoch wedi tynnu'r hen feic o gornel dywyll a meddwl rhoi cynnig ar feicio eto. Beth gwell am gadw'n ffit a mwynhau'r awyr iach yn y cyfnod anodd hwn? Os ydych wedi cael hwyl arni beth am fentro ar rhywbeth newydd pan fydd modd mentro i'r byd mawr eto? Beth am roi cynnig ar feicio mynydd? Mae'n siŵr bod llawer ohonoch yn methu dychmygu ffaithiwn beth. Wedi'r cwbl, beicio mynydd yw pobl ifanc (dynion gan amlaf) wedi gwisgo fel Evel Knievel, yn hyrddio i lawr y mynydd, yn neidio i'r awyr a rasio'r trwy'r baw a dŵr! (fel yn y llun). Wel, ffrindiau, mae 'na ochr arall i feicio mynydd sydd yn addas i bobl o bob siap ac oedran. I fi, mae beicio mynydd yn golygu teithio yn hamddenol ar hyd llwybrau heb unrhyw draffig – llwybrau hamdden fel y Mawddach (rhwyng y Bermo a Dolgellau), neu ffyrdd a thraciau trwy'r mynyddoedd a'r coedwigoedd, neu lwybrau pwrpasol yng Nghoed y Brenin. Mae beicio mynydd yn agor byd newydd lle fedrwch



deithio am oriau i weld rhai o lefydd prydferth a diarffordd ein gwlad. Cyn i chi weiddi – “Dwi ddim yn ddigon ffit” neu “Dwi'n rhy hen” mae'n rhaid i mi eich cysuro bod modd i bawb fwynhau beicio (ffordd neu fynydd) – a'r ateb (i bobl fel fi sydd yn tynnu ymlaen a'r hen gorff ddim fel y buodd o) yw Beic Trydan!

Mae batri ar feic trydan yn rhoi mwy o bŵer i chi pan fydd ei angen ac yn golygu y gallwch ddringo rhiwiau yn haws neu seiclo'n bellach. Fel arfer maen nhw'n ddrutach na beic cyffredin ond, yn fy marn i, mae'n werth pob ceiniog os dwi'n gallu mynd i unrhyw le heb boeni am bellter na rhiwiau serth.

Os ydych eisiau mwy o wybodaeth neu gyngor, ewch draw i Ganolfan Coed y Brenin (rhwyng Trawsfynydd a Dolgellau) a holwch yn y siop feiciau. Mae'r staff yn groesawgar iawn a bydden nhw'n gallu ateb eich cwestiynau i gyd. Gyda llaw, mae 'na grŵp i ferched yn unig sydd yn trefnu teithiau a chysiau hyfforddi i feicwyr o bob safon – bydd pobl y siop yn gwybod y manylion. Felly, pan ddaw'r cyfle i fynd allan eto, rhowch gynnig ar feicio mynydd sydd yn ymarfer gwyh i'r teulu i gyd.

Mair Eluned

Adref o'r ysbyty

Rydym yn falch o ddeall fod Wyn, Tŷ'n Braich (gŵr Olwen, Bryntirion, Yr Ynys gynt) wedi cael dod adref o Ysbyty Walton, lle bu raid iddo fynd i gael sylw'n ddiweddar. Mae Wyn yn gyfarwydd iawn â'r ysbyty honno erbyn hyn! Brysiau fendio Wyn.

STORI O GYFNOD Y GOFID

Diolch yn fawr am yr isod gan Charlotte o Harlech, sef ei golwg hi ar y sefyllfa bresennol. Dyma sut mae hi'n cyflwyno ei hun:

‘Fy enw i yw Charlotte Anne Hunt. Rwy'n 19 mlwydd oed a dwi'n byw yn Harlech. Rwy'n mwynhau ysgrifennu llawer a gobeithio fydd y darn o ysgrifennu yma yn rhoi cymorth i rai yn ystod y cyfnod *lockdown*.’

Bywyd allan o'r ffenestr

Edrychais allan o'r ffenestr yn breuddwydio gallwn i fynd allan. Breuddwydio gallwn i fynd i weld fy chwaer sy'n byw ar ben ei hun ac yr unig gysylltiad rwyf yn cael hefo hi yw siarad ar y ffôn. Mae yn galed, doedd neb yn gallu rhagfynegi pa mor galed oedd hyn am fod. Ond, ar ôl gorfod aros i mewn am wythnosau mae'n dechrau mynd yn fwy ac yn fwy caled, does neb yn gallu mynd i weld ffrindiau na theulu, ac mae'n rhaid i rieni ddweud wrth eu plant na allan nhw fynd allan i weld ffrindiau neu fynd i'r ysgol. Pawb oedd yn dweud roedd blwyddyn 2020 am fod ei flwyddyn wedi cael sioc fawr. Edrychais allan o'r ffenestr ar y strydoedd gwag, does neb i'w weld yn unman. Dwi rioed wedi gweld y strydoedd fel yma; mae'r strydoedd fel arfer yn llawn o dwristiaid yn barod i fynd i'r traeth, neu'r castell. Dwi ddim yn meddwl bydd neb yn mynd i'r traeth am amser hir. Fydd neb yn gweld y môr a chwarae yn y tywod. Fydd neb yn cael picnic neu'n mynd i ddal pysgod yn y môr. Mae'r ardal lle dwi'n byw yn fyw oddi wrth dwristiaid, heb y twristiaid fydda ni ddim yn gallu cael adeiladau newydd, neu ddatblygu'r gweithgareddau sydd gennym ni yn barod. Does ddim llefydd i gael bwyd ar agor, nid yw'r gwestai ar agor chwaith. Yr unig fath o incwm sydd gennym ni yw'r incwm gan yr archfarchnadoedd pwysig sydd yn dal ar agor. Ond eto gan fod yr ardal yn fach ac yng nghanol cefn gwlad does gennym ni ddim archfarchnadoedd mawr.

Fydd o'n amser hir iawn tan fydd popeth yn mynd yn iawn eto ac mae'r ardaloedd bach fel yr un yma yn mynd i gael rhyw fath o incwm i'w cadw i fynd. Am y tro bydd rhaid i'r busnesau bach barhau, y rhai sydd yn cael aros ar agor. Does neb yn gwybod pryd mae'r amser caled yma am orffen ac i rai mae'r amser yma yn galed iawn. Mae'n profi eu hiechyd meddyliol yn fwy nag erioed i rai. Mae'n bwysig iawn i'r cymunedau bach aros hefo ei gilydd, ar gyfer pob un person sy'n byw ar ben ei hun, ar gyfer pob un person sy'n teimlo'n unig. Mi fydd yr amser caled yma yn pasio, ond am y tro fydd rhaid i ni aros yn gryf ac aros yn ddiogel. Mae pawb sy'n teimlo'n unig yn teimlo fel nad oes ganddyn nhw ddim pwrpas yn y byd, fel pe bai pawb yn anghofio amdany'n nhw. Ond dwi eisio ei wneud o'n glir nad oes NEB wedi cael eu hanghofio, mae pawb yn cael pwrpas yn y byd yma. Os rwyf yn oedolyn meddyliwch am y gorffennol a beth oedd eich pwrpas yn y gorffennol. Os rwyf yn ifanc ac yn teimlo fel dwyt ddim yn siŵr beth i wneud yn y byd a hefo eich hun, defnyddiwch yr amser yma i benderfynu beth rwyf eisiau wneud yn y byd yma, penderfynwch beth yw eich pwrpas a gweithiwch ar y pwrpas, yna datblygwch eich pwrpas. Mi fydd yr amser yma yn pasio, mae pawb angen aros yn gryf a helpu pawb o'i gwmpas. Bydd yr amser yma yn dod â phawb yn agosach ac efallai fydd o'n creu byd hollol wahanol.

Charlotte Hunt

DYDDIADUR DAN GLO

Cipolwg o fywyd ein teulu ni; y fi Darren, fy ngwraig Donna, a'r hogia Siôn, 7 oed a Tomi 3 oed yn ystod cyfnod y Covid.

Os ydych chi'n disgwyl gwaith cystal â Samuel Pepys, Anne Frank, neu Ddyddiadur y Dyn Dŵad, fe ddylech chi droi'r dudalen a darllen rhywbeth arall. Sôn am dro ar fydd. Rydym wedi cael ein taro â chyfyngiadau angenrheidiol sy'n mynd i newid ein ffordd o fyw, ond gyda'r gobaith y byddant yn ein cadw ni'n fyw. Anodd credu mai cwta wyth diwrnod yn ôl ein bod yn ciniawa yng Nghastell Deudraeth gyda fy mam, Eirlys, a'i naw brawd a chwaer, a teulu fy chwaer, Julie, i ddatlu pen-blwydd Mam yn 70 oed.

Wythnos wedi hynny, bu i ni dreulio ychydig nosweithiau yn Hafan y Môr, Pwllheli, lle roedd pellhau cymdeithasol yn syniad dieithr, a phawb mewn swigan ddychmygol oedd yn mynd i gadw'r feirws i ffwrdd.

Yna, dyna be dwi'n alw'n gyfnod yr anrhegion annymunol.

Tafarndai, bwyta, ac ati yn cau ar ddydd Gwener yr 20fed, pen-blwydd Mam; ac yna, ar y diwrnod o'n i'n troi 50, y datganiad gan y Llywodraeth am y cyfyngiadau newydd.

O leia, cyhoeddwyd cynllun rhyddhau (furlough) a fydd yn sicrhau bod 'na ryw fath o incwm yn dod i'n haelwyd i gadw'r blaidd o'r drws.

Mawrth 24, Diwrnod 1 Deffro i'r drefn newydd. Y peth cyntaf i'w wynebu ydy addysgu cartref, her newydd a diarth, ond rhywbeth mae'r plant yn edrych ymlaen iddo. Mae staff Ysgol Tanycastell, Mrs Edwards, athrawes Siôn, ac Anti Rhian, gweinyddes Tomi, wedi darparu

pecynnau addysgu gwych, yn llawn syniadau a gweithgareddau diddorol. Rhaid canmol yr athrawon am eu gwaith da ar fyr rybudd. Mae'r hogia wrth eu boddau yn sgwennu a chyfri a chreu ac mae Donna a minnau wedi derbyn ein cyfrifoldeb newydd gyda brwdfrydedd. Teg yw dweud bod diwrnod cyntaf Ysgol Pant yr Eithin wedi bod yn llwyddiant. Rhaid egluro nad ydi ein disgwyliadau yn rhy uchel; mae unrhyw ddiwrnod lle nad oes disgybl yn cael ei yrru i'r gadair dawel yn llwyddiant!

Ar ôl ysgol, mae Donna a'r hogia yn plannu'r hadau blodau haul a gafwyd gan Mrs Edwards yn y pecyn gwaith, rhywbeth y mae hi'n ei wneud bob blwyddyn.



Mawrth 27, Diwrnod 4

Yn ffodus, ac yn wahanol i reolau rhai gwledydd eraill, gallwn fynd allan am ymarfer corfforol. Felly bûm am spin ar y beic. Es i Borthmadog a Morfa Bychan ac yn ôl drwy Lanfrothen. Wrth gyrraedd Port, dwi'n stopio wrth y post i dynnu llun o'r stryd fawr, sy'n hollol wag o draffig a siopwyr. Mae'n olygfa afreal, fel rhywbeth o ryw ffilm lle mae dynolryw wedi cael ei ddinistrio a does dim ond ychydig ohonom ar ôl i achub y byd. Wrth gyrraedd y tŷ, dwi'n gweld Tomi yn reidio'i feic ar y pwt o flaen y tŷ. Mae wedi bod yn anodd ei gael o i bedlo cyn heddiw, ac



Roedd adeiladu den yn rhan o'u gwaith ysgol. Mi ddaru'r hogia fwynhau'r dasg.

mae Donna'n haeddu clod mawr am ddyfalbarhau efo fo. Dwi'n llawn balchder ac mae o wrth ei fodd yn dangos ei hun i Dad.

Mawrth 30, Diwrnod 7

Ar ôl penwythnos tawel, dim triapiau, dim siopa, neu ymweld â'r sinema, mae'n amser Ysgol Adra unwaith eto. Cyn y dosbarth cynta, rydan ni wedi penderfynu ymuno â gweddill y wlad, a dilyn dosbarth ymarfer corff Joe Wicks ar YouTube. Hanner awr eithaf hawdd o symud ac ystywytho i fod, ond ar ôl chwarter awr, mae'r hogia wedi rhoi'r gorau iddi, ond mae'r hen stejar yma yn benderfynol o orffen y sesiwn. Ar ôl ei gorffen, dwi'n teimlo fel fy mod yn dioddef o Covid-19 - dwi'n fyr fy ngwynt, yn boeth, yn pesychu, ac yn boenau drostof!

Yn y pnawn, mae Donna a fi yn ail-greu llun Vosper o Salem fel rhan o her ar-lein byd eang. Donna sy'n cymryd rhan Siân Owen, Ty'n y Fawnog, gyda blanced fel siôl a bin bara du fel het. Efallai i chi weld y lluniau yn Llais Ardudwy yn ddiweddar.



Ebrill 1, Diwrnod 9

Gan nad oes cwis yn y Queens i fynd iddo, dwi am drïo cwisiau ar-lein i gadw'r ymennydd yn weithgar. Dwi'n cael dipyn o hwyl arni, ac yn cael 100% mewn dau ohonyn nhw. Pwy sa'n meddwl fy mod i'n arbenigwr ar ffilmiau cerddorol a ffilmiau'r 80au!

Ebrill 4, Diwrnod 12

Mae dau o gyfoedion Siôn, James a Thanasis, yn 7 oed heddiw a felly rydan ni'n creu neges fideo i ddymuno pen-blwydd hapus iddyn nhw. Mae'n bwysig i'r plant gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau ac maen nhw'n ffodus bod y dechnoleg ar gael.

Yn y pnawn, rydym yn cynnal mabolgampau wedi i ni gael offer drwy'r post yn gynharach. Mae

'na ras mewn sach, a ras wŷ ar lwy. Mae Yvonne a Nathaniel drws nesa ond un yn ymuno yn yr hwyl o bellter priodol, gyda nhw'n rhedeg o flaen eu tŷ nhw a'r hogia o flaen tŷ ni.

Rhaid canmol y plant sy'n ymddwyn yn gyfrifol iawn, ac yn dilyn y rheolau pellhau cymdeithasol. Mae Siôn ac Yvonne hyd yn oed wedi bod yn chwarae *I-Spy* o bellter.

Ebrill 10, Diwrnod 18

Ar ôl gwaith ysgol rydan ni'n mynd am dro, rhywbeth sy'n rhan o'r drefn dyddiol. Mae'r daith yn mynd â ni drwy Cae Gwastad a drwy'r caeau i goed Ffridd Rasus ac yn ôl am faes parcio'r traeth a heibio'r Waun am adra. Mae'r hogia'n mwynhau'r daith hon ac wedi ei henwi'n Sonic Walk ar ôl gêm gyfrifiadurol maen nhw'n hoffi ei chwarae. Wrth gerdded, maen nhw'n dychmygu gelynyon a heriau i'w hwynebu. Heddiw y gelyn i Sonic ydi'r Coronafeirws! Tra'n bod ni'n cerdded, mae Donna wedi bod yn papuro wal y tŷ bach i lawr grisiau. Mae hi eisoes wedi peintio'r skirtings a fframiau'r drysau drwy'r tŷ ac wedi gwneud joban dda iawn. Mae hi fel rhyw *boutique hotel* yma rŵan.

Ebrill 20, Diwrnod 28

Neges destun gan yr ysgol i ddeud bod 'na becynnau gwaith newydd ar gael i'r hogia. Rydan ni'n cerdded draw er mwyn i'r hogia gael gweld eu hathrawon. Yno mae Mrs Williams [y bos yn ôl Siôn], Anti Catherine, cynorthwywraig dosbarth, a Mrs Edwards, athrawes a ffefryn Siôn. Wrth i Donna nôl y gwaith, rydan ni'n cael sgwrs o bell ac mae'r athrawon a'r plant yn falch o'r cyfle i sgwrsio gyda'i gilydd. Ym mhecyn gwaith Siôn, mae na syrpreis bach, ond hynod feddylgar.



Mae Mrs Edwards wedi gwneud llun i'w hongian gydag enw Siôn yn ffurfio bryn gwyrdd gydag enfys ar y copa, a gem melyn fel yr haul wedi ei ludo yn y gornel. Ar y blaen mae'r geiriau 'fe ddaw



Siôn a Tomi yn mwynhau hufen iâ yn eu citiau Everton

eto haul ar fryn' ac ar y cefn 'diolch am gadw'n saff'. Mae'n dangos faint mae hi'n ei feddwl o'r plant ei bod wedi cymryd yr amser i wneud anrheg i bob un ohonyn nhw ac yn rhywbeth y byddwn yn ei gadw a'i drysori fel atgof o'r amseroedd cythryblus hyn.

Ebrill 22, Diwrnod 30

Mae rhai o selogion y cwis wedi bod yn ymdrechu i ateb cwestiynau drwy e-bost. Y cwisfeistr heno yw'r bonheddwr Iwan Lewis, Llandanwg. Dwi'n cystadlu mewn tîm gyda Phil Mostert a Gary Hall o Llanfair. Mae Phil yn e-bostio'i atebion i mi, a gan nad ydy Gary ar y we, dwi'n ei ffonio i drafod yr atebion. Yn anffodus, mae'n anodd cwblhau'r rownd hanner amser, sydd gan amlaf yn luniau i'w hadnabod, dros y ffôn. Er hyn mae Gary yn llwyddo i enwi mwy o daleithiau'r UDA na fi a Phil, jyst drwy fi yn eu disgrifio. Y tro hwn, er gwaetha ymdrechion Gary, rydan ni'n bell o ennill.

Drwy'r dydd bu Donna yn peintio'r ffens bren rhyngom â'r rheilffordd. Dechreuodd ryw bythefnos yn ôl gyda'r ffens isel rhyngom a drws nesaf, cyn symud ymlaen at y ffens yma sy'n 9 panel dros 6 troedfedd. Hi sy'n garddio ac yn addurno. Ychydig dwi'n helpu yn y maes hwn, a dwi'n siŵr na fuasai'r ardd yn edrych cystal pe bawn yn busnesu. Os dwi'n lwcus



falla caf dro efo brwsh paent am ychydig.

Ebrill 27, Diwrnod 35

Diwrnod mawr yn tŷ ni. Pen-blwydd Sion yn 7 oed. Un tra gwahanol i'r arfer, dim ffrindiau na pharti, dim trip i ffarm Rob, Caecethin, dim hyd yn oed ymweliad gan Nain Top a Nain Gwaelod. Er hyn oll, mae'n cael diwrnod braf, yr anrhegion yn plesio a does dim ond un pwl bach o dristwch wrth iddo fethu ei ffrindiau. Mae 'na un anrheg y gofynnodd amdano rydan ni wedi methu ei gael iddo, sef cael gwarad o'r feirws mewn pryd iddo gael parti. Does na'm plesio rhai pobl!

Dwi'n gwneud y gorau i godi ei galon yn hwyrach ymlaen drwy adael iddo fy arbed rhag sgorio goliau gyda'i fenyg gôl-geidwad newydd. Wel, dwi'n dweud gadael iddo, ond mae o wedi datblygu'n gôl-geidwad bach da yn ystod cyfnod y Covid ac wedi magu cariad newydd tuag at chwarae pêl-droed.

Mai 1, Diwrnod 39

Wedi i Mark Drakeford gyhoeddi cyfyngiadau ar ba mor bell y cawn ni feicio, dwi'n penderfynu ei bod hi'n hen bryd i mi gyflawni Her y 4 Rhiw. Mae hon yn reidan yn fy mhen ers peth amser. Ar ôl cychwyn o'r Sgwâr yn Harlech a mynd rownd Ynys i lacio'r coesau, mae'n rhaid dringo Llech, rhiw Dewi Sant, rhiw Pendref o'r Lion i gapel Berw Goch a gorffen drwy ddringo Twtil. Dim ond 12 milltir ydi'r daith i gyd, ond 12 milltir anodd iawn. Ond dyna fo, mae o wedi'i neud rŵan, ac mae'r her allan yna rŵan i feicwyr eraill geisio ei chyflawni.

Dwi'n sylweddoli rhywbeth arall heddiw hefyd; ar ôl yr holl amser yn gweithio mewn siop, fedra i ddim cofio'r tro diwethaf i mi fod mewn un.

Gobeithio eich bod wedi mwynhau darllen hanesion ein teulu bach. Mae'n amser anodd, gyda phobl yn methu eu teuluoedd a'i ffrindiau a'r hogia yn methu'r ysgol. Ond dwi'n gwerthfawrogi'r amser dwi'n ei dreulio gyda'r teulu ac yn sylweddoli be dwi di wedi ei gollu dros y blynyddoedd. Fel maen nhw'n dweud, 'Mae rhyw dda yn dod o bob drwg.'

Darren Williams

AWYR DRAETH



Llun o'r awyr draeth dros y cyfnod diwethaf a dynnwyd gan Jennifer Greenwood o Lanbedr

TOYOTA HARLECH



**COROLLA
HYBRID
NEWYDD**

**Dewch i roi cynnig ar yrru'r
Corolla newydd!
Mae 'na ganmol mawr i hwn!**

**Ffordd Newydd
Harlech LL46 2PS
01766 780432
www.harlech.toyota.co.uk
info@harlech.toyota.co.uk**

facebook.com/harlech.

Twitter@harlech_toyota

Llais Ardudwy

Fel y gwyddoch, bydd papur mis Gorffennaf yn un arbennig - rhifyn 500. Oherwydd y pandemig, ni fydd unrhyw ddathliadau ffurfiol am y tro.

Ond i ddathlu o fewn y tudalennau fel petai, gwahoddir chi i anfon cyfraniadau amrywiol atom - yn erthyglau, lluniau, pytiau, penillion, cerddi, atgofion, cyfarchion. Gwnewch hynny yn gynnar os gwelwch yn dda, rhag ofn y bydd yn rifyn mawr!

HYSBYSEBION

Telerau gan Ann Lewis 01341 241297

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

ALAN RAYNER

07776 181959

**ARCHEBU A GOSOD
CARPEDI**



Sŵn y Gwynt, Talsarnau
www.raynercarpets.co.uk

ALUN WILLIAMS

TRYDANWR



* Cartrefi
* Masnachol
* Diwydiannol
Archwilio a Phrofi

Ffôn: 07534 178831
e-bost:alunllyr@hotmail.com

Tafarn yr Eryrod

Llanuwchllyn

01678 540278



Bwyd cartref blasus
Cinio Dydd Sul
Dathliadau Arbennig
Croeso i Deuluoedd

JASON CLARKE

Maesdre, 20 Stryd Fawr
Penrhyndeudraeth
LL48 6BN



Arbenigwr mewn
gwerthu a thrwsio
peiriannau sychu dillad,
golchi dillad a golchi llestri.



GERAINT WILLIAMS

Gwrachynys, Talsarnau

ADEILADWR

Gwarantir gwaith o safon
Ffôn: 01766 780742 / 07769 713014

GWION ROBERTS, SAER COED

01766 771704 / 07912 065803



gwionroberts@yahoo.co.uk
dros 25 mlynedd o brofiad

MELIN LIFIO SYMUDOL

Gadewch i'r felin ddod atoch chi!
Y cyntaf i'r felin gaiff lifio!
www.gwyneddmobilemilling.com



**GERAINT
WILLIAMS**

Gwrachynys,
Talsarnau

01766 780742
07769 713014

**\$ammie
Solutions**

Gwasanaethau Cadw Llyfrau

SAGE
Cyfrifon
Paratol Cyflogau
TAW
Hunanesiad
a mwy

Sammie Cooper BA

Lefel 4 Diploma Mewn Cyfrifeg,
Trethiant a Moeseg - AAT

Harlech - Gwynedd
07786554884

sammiesolutions@outlook.com

CAE DU DESIGNS

DEFNYDDIAU DISGOWNT

GAN GYNLLUNWYR

Stryd Fawr, Harlech

Gwynedd LL46 2TT

01766 780239

e-bost: sales@caedudesigns.co.uk

Dilynwch ni:



Oriau agor:

Llun - Sadwrn

10.00 tan 4.00

GWASANAETH CADW CYFRIFON

ARDUDWY

Cysylltwch â ni am y gwasanaethau isod:

- Cadw llyfrau
- Ffurflenni TAW
- Cyflogau
- Cyfrifon blynyddol
- Treth bersonol



info@ardudwyaccounting.co.uk

07930 748930

E B RICHARDS

Ffynnon Mair

Llanbedr

01341 241551

CYNNAL EIDDO

O BOB MATH

*Toi gyda llechi,
gosod brics, plastro,
teilsio lloriau a waliau,
gwaith coed ayyb.*

**Llais
Ardudwy**

Drwy'r post

Iolyn Jones 01341 241391

Tyddyn Llidiart, Llanbedr

llaisardudwy@outlook.com

E-gopi

llaisardudwy@outlook.com

£7.70 y flwyddyn am 11 copi

**argraffu da
am bris da**



y Lolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

*Pritchard &
Griffiths Cylf.*

Tremadog, Gwynedd LL49 9RH

www.pritchardgriffiths.co.uk

01766 512091 / 512998

TREFNWYR

ANGLADDAU

Gwasanaeth personol dydd a nos

Capel Gorrffwys

Ceir angladdau

Gellir trefnu blodau a chofeb

Ty'n Drain



CAPEL TY'N DRAIN

*Yn hen gadarnle'r ffydd yng nghôl y wlad
Mae breichiau'r coed yn closio am ei fur,
A natur 'nôl rhyw fythol ordinhad
Yn cau y drws lle bu defosiwn pur,
Does yma dŵr na chwaith ysblander drud
I ddatgan gwerthoedd o ryw oes a fu,
Ond mae cadernid yn y meini mud
Sy'n ddrych o sicrwydd cred hen ddeiliaid cu.
Mor hawdd yn heddd y fangre sanctaidd gudd
Yw clywed sŵn adnodau gan y plant
A seiniau mawl yn ddistaw lanw'r dydd
Fel murmur, murmur hryw dragwyddol nant,
Er na ddaw eto 'hwyl' o'r dyddiau gynt
Mae'r haleliwiau'n fyw yng nghan y gwynt.*

EL 1996

1881

Yn y cyfnod hwn mae cysylltiad teuluol Ann yn dechrau. Symudodd y Parch Hugh Pugh a'i wraig Margaret Morgan o Fryn-crug i fyw yn Nhy'n Drain rhywdro ar ôl 1876. Roedd Hugh Pugh wedi'i benodi yn weinidog yng Nghapel Gwynfryn. Nid oedd Hugh gartref ar noson y cyfrifiad. Fe'i cofnodwyd fel ymwelydd ar fferm Esgairwedden, Pennal. Tebyg iddo fod yn cynnal oedfa siŵr o fod, dydd Sul oedd Mawrth 27, 1881. Yn y cyfrifiad, disgrifir Margaret fel ffermwraig ac yn ddiddorol iawn, disgrifir Ty'n Drain fel Ysgol Sul.

Tua 1884, symudodd Hugh Pugh i eglwys yn Llangwinnadl gyda'i wraig a dau o'u plant. Arhosodd dau arall, Ann Catherine a John Morgan yn Nhy'n Lidiart. Priododd Ann a Richard Jones, Pen y Bryn (hen daid Ann) a daeth John yn denant Ty'n Drain gydag Elisabeth, gynt o Hendrewaelod, yn wraig.

1891

Dangosir Ty'n Drain fel un o dri dŷ gwag rhwng Uwchlaw'r Coed a Thyddyn Lliidiart heb ddim disgrifiad o'i bwrpas.

1901

Cofnodir yr adeilad fel Ysgol Sul heb neb yn byw ynddo.

1911

Does dim sôn am Ty'n Drain yn y cyfrifiad. Awgryma hyn nad oedd neb yn byw yno a neb yn talu rhent.

Bu arwerthiant ar ran o stâd Gors y Gedol ym 1908 a rhestrir Ty'n Drain fel Ysgol Sul.

Roedd y diweddar Elfed Lewis, Tal-y-bont yn ymddiddori yn hen adeiladau Ardudwy ac mewn erthygl yn y cylchgrawn a baratowyd drwy gynllun Adnabod Ardudwy mae'n dweud fod yr Ysgol Sul wedi cau oherwydd bod Gors y Gedol wedi codi'r rhent. Mae'r llun o 1913 yn dangos yr adeilad mewn cyflwr da ac efallai fod yr Ysgol Sul wedi parhau yn hwyrach nag y mae cyfrifiad 1911 yn awgrymu. Yn yr erthygl, dywedir fod Olwen, gwraig Elfed, yn cofio ei mam yn sôn am fynd i eisteddfod yno.

IJ

Ers imi ddod i fyw i Dyddyn Lliidiart a dod ar draws murddun ar dir Uwchlaw'r Coed ar y terfyn ger y beudai yma, dwi wedi bod yn meddwl beth oedd hanes y lle.

Roedd hanesion am bobl yn mynd i'r Ysgol Sul ac i eisteddfodau yno. Roedd hyn yn syndod imi gan fod y lle mor fach. Dirgelwch arall oedd bod wal pum troedfedd yn cau safle o'r un maint â'r murddun ond nad oes dim golwg fod mynediad i'r sgwaryn hwn wedi bod.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, daeth Ann (Harris gynt) a Peter, Llwyn y Ffynnon, Talsarnau yma i holi lle'r oedd Ty'n Drain, gan fod cysylltiad gan rhai o deulu Ann â'r safle. Wedyn derbyniais ddogfen oedd yn waith ymchwil gan Peter yn taflu goleuni ar y defnydd o'r adeilad.

Yn ystod y cyfnod diweddar hwn, daeth yn amlwg fod gan bobl fwy o amser i gerdded a chwilota. Cefais sawl ymholiad am y murddun ac felly dyma grynhoi gwaith Peter. Os hoffech ddarllen yr holl wybodaeth, cysylltwch â llaisardudwy@outlook.com

Mae'r ysgrif yn cynnig eglurhad ar rai o'r ffeithiau diddorol am y preswylwyr - mae'n werth ei ddarllen.

Daw'r wybodaeth a ganlyn o'r Cyfrifiad:

1841

Mae dau dŷ yma, un yn wag a nyddwr gwlan, 60 oed, Edward Jones a'i wraig Jane (40 oed) yn byw yn y llall gyda geneth 3 oed o'r enw Jane (wyres efallai).

1851

Yn y naill dŷ mae gŵr gwedd 36 oed, John Jones, gwas fferm a'i ferch 12 oed yn byw. Mae Edward a Jane Jones yn dal i fyw yn y llall. Ac erbyn hyn, mae gŵr 30 oed, Thomas Evans yn byw gyda nhw. Y disgrifiad a geir yn y Cyfrifiad yw 'yn cael ei gadw'. Mae'n ymddangos mai byw ar y plwyf oedd Thomas.

1861

Mae John Jones (llafurwr, 64 oed) a'i wraig Gainor (38 oed) gyda dau o blant, Catherine (11) a Richard (3 mis) yn byw yn un o'r tai. Mae'n annhebygol mai'r John Jones yma oedd yno yn 1851 gan nad yw'r oedran yn cyd-fynd. Mae Edward Jones a Jane yn dal i fyw yn yr ail dŷ ond rŵan, ac yntau yn 83 oed, fe'i disgrifir fel cyn-nyddwr. Un peth rhyfedd yw bod dau o blant, William (1) ac Anne (9), yn byw gyda nhw. Fe'i disgrifir fel plant Edward a Jane ond oherwydd yr oedran go brin fod hyn yn gywir. Damcaniaeth Peter yw mai plant John a Gainor drws nesaf ydyn nhw, dim digon o le iddyn nhw gyda'u rhieni. Dim ond 6m wrth 4m yw'r tŷ a does dim llofft.

1871

Mae dyddiau Edward a Jane Jones yn Nhy'n Drain drosodd. Mae'n debyg iddyn nhw farw yn 1866 ac 1871. Mae'r ddau dŷ yn dal yno. Yn un mae gwraig weddw 60 oed, Mary Morris. Disgrifir hi fel gwerthwraig wyau; mae'n debyg ei bod yn casglu wyau o wahanol ffermydd ac yn eu gwerthu yn y pentrefi. Yn yr ail dŷ mae John Jones (un arall eto) a'i wraig Margaret yn byw gyda tair merch ac un mab. Disgrifir John fel saer maen a saer coed. Mae'n debyg y byddai'n cael ei alw'n adeiladwr yn yr oes hon.

TÎM RYGBI YSGOL ARDUDWY 1962-63



Mr Reg Morris yw'r trydydd o'r chwith yn y rhes flaen a Mr M G Evans yw'r pumed o'r chwith. Tybed fedr rhywun o'n darllenwyr enwi'r disgyblion sydd yn y llun?

Cerdd

Diolch i Lowri Ifan, merch Ifan a Helen Pritchard, 26 Tŷ Canol, am ganiatâd i gynnwys y canlynol:

“Wrth fynd am dro pnawn ‘ma, mi welodd Gwern lun enfys yn y ffenest, a’i lliwiau llachar wedi pylu yn yr haul. “Sbia, Mam, maer enfys yma wedi gwywo,” medde fo.

Mae o'n deud pethe bach doniol ac annwyl bob dydd, ac yn g'neud i mi wenu, ond pan ddudodd o hyn heddiw mi darodd fi mor hir y mae o a phlant bach eraill y byd wedi para yn y newid mawr 'ma – yn ddigon hir i enfys 'wywo' hyd yn oed.

Mae o mor bositif drwy hyn i gyd, er ei hiraeth am deulu, ei ffrindiau bach ... a charamel sleis Caffi'r Maes! Fel plant bach dewr ym mhob man, sy'n rhoi cryfder i'w teuluoedd – yn fwy na dim arall yn y byd mae Gwern a Miri yn rhoi cryfder i mi. Felly, mi sgwennais i hon wedi iddo fo gysgu heno, iddo fo, a phob plentyn bach dewr sy'n rhoi cryfder i ni yn ystod yr hen salwch 'ma. Diolch amdany'n nhw.

Er i'r enfys yn y ffenest'
Golli'i lliw yng ngwres yr haul,
A bod degau
O foreau
Ers i Taid gael
Dal dy law.

Er bod metrau
Yn filltiroedd
Rhyngo ti
A phlant y stryd,
Er bod gwacter
Lond y strydoedd;
A llonyddwch
Lond y byd.

Y mae rhyddid
Yn dy enaid:
Yn dy galon gynnes di,
Mae 'na obaith
Yn dy lygaid,
Sy'n rhoi nerth i nyddiau i.

Fe ddaw eto olion bach
Dy draed ar draethau
Melyn,
Ond tan hyny,
'Machgen dewr,
Cawn swatio mwy,
fan hyn.

Diolch

Dymuna Helen, Bedwyr a'r teulu, Ty'n y Ffordd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr, sef Michael John, Caecrwth, Llanfachreth, a oedd mor annwyl a hwyliog bob amser. Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

Rhodd a diolch £10

Damwain

Anfonwn ein cofion at Rhian Jones, Heol y Bryn a gafodd ddamwain yn ddiweddar a throï ei ffêr. Hyderwn y byddi di'n teimlo'n well yn fuan, Rhian.

Dan anhwylder

Bu Cledwyn Roberts, Garej y Morfa hefyd dan anhwylder wedi iddo gael damwain fach wrth fynd a'r ci am dro. Ond mae o wedi gwella erbyn hyn ac mae yn ôl yn ei waith. Ein cofion atat tithau hefyd Cledwyn.

Enfys



Ti yw ein henfys,
Ein gobaith a'n gwên.
Bob awr wyt yn gweini
Ar ifanc a hen.

Ti sy'n croesawu
Y claf dan ei glwy'
I'th ofal caredig -
Dim teulu ddim mwy.

Ti ddeil fy llaw
Yn unigedd y nos
Gan sibrwd 'dw i yma '
Yng nghanol fy loes.

A phan ddof i drwodd
Estyni dy law
I'm harwain i adref
Heb boenau na brawd.

Enfysau, ie, degau
Fu'n llonni ein byd,
Anghofiwn ni fyth
Am eu haberth o hyd.

Delyth Jones

STORFA CANOLBARTH CYMRU



Storfa Cartref a Busnes



www.midwalesremovals.co.uk

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr— Wedi ei wresogi

Siop Ar-Lein: www.boxshopsupplies.co.uk
Bocsas a 'bubblewrap' ar lein



Ffôn: 01654 703592

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, Powys, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDDSODDWYR
IN PEOPLE | MEWN POBL

Y golffiwr o Harlech fu farw yn Kenya

Hugh Roberts oedd y golffiwr ac roedd wedi ei fagu yn Tŷr Eiddew, Harlech ar droad yr ugeinfed ganrif. Mewn rhifyn diweddar o gylchgrawn hanes teulu y mae ei hanes. Perthynas iddo sy'n sôn amdano yn Gwreiddiau Gwynedd Roots, cylchgrawn dwyieithog Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd, y gwanwyn hwn. H Llew Williams o Fangor (Caergybi yn wreiddiol) yw'r awdur ac mae'n perthyn i Hugh Roberts. Roedd ei nain yn chwaer iddo a hi fyddai'n dweud 'pobol fawr sy'n chwarae golff wsti'!

Yn yr erthygl Saesneg, mae'n sôn sut yr oedd Hugh a'i frawd Bob wedi cymryd diddordeb mewn golff cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu'r ddau yn *caddies* yng nghwrs Dewi Sant cyn dechrau ar yrfa broffesiynol yn chwarae golff. Yn 1914, aeth Hugh i gynorthwyo George Gadd yng nghwrs Roehampton, Llundain a'i frawd i dde Cymru. Ymunodd y ddau â'r Ffiwsilwyr

Cymreig a daethant drwy'r rhyfel. Ond bedair blynedd ar ôl iddo orffen bu farw Bob. Ailddechreuodd Hugh gyda'r golff yn syth a chael gwaith yng Nghlwb Henffordd. Yno y priododd ag Elizabeth Jane Jones oedd yn wreiddiol o Borthmadog.



Mr a Mrs Hugh Roberts

Yn 1920, symudodd Hugh i fod yn golffiwr yn Stoke Poges, Swydd Buckingham, a gwneud ei farc drwy ennill pencampwriaethau. Cafodd deithiau wedyn i feysydd enwog yr Alban a Chymru. Bu yn Stoke Poges am ddeng mlynedd ar hugain nes y teimlodd yr angen am newid. Cyn ffarwelio

cyflwynodd gwpan i'r clwb, Cwpan Hugh Roberts. Maent yn dal i'w chyflwyno yno bob blwyddyn.

Yn 1949 roedd ef a'i wraig ar eu ffordd i Kenya. Byddai'n gyfrifol am chwaraeon yn y *Brackenhurst County Club* heb fod ymhell o Nairobi. Rhan o'i waith oedd troi'r clwb golff naw twll yn un newydd sbon deunaw twll. Y golffiwr Cymreig llwyddiannus, Dai Rees, a agorodd y cwrs.

Ond er mor ddelfrydol oedd y lle nid oedd yn dygymod ag iechyd Hugh a'i wraig. Bu farw'r ddau o fewn wythnosau i'w gilydd yn 1952. Roedd o'n 58 a'i wraig yn 60. Ym mynwent Eglwys yr Holl Saint, Nairobi, y mae'r ddau wedi eu claddu. Mae un llinell ar eu carreg fedd yn eu cysylltu â Chymru. 'Mwyaf garw oedd marw'n mhell' yw'r geiriau ingol i gofio'r golffiwr proffesiynol a'i wraig. Gellir cysylltu â'r Gymdeithas drwy: www.gwyneddfhs.org



HEN LUNIAU O GOLEG HARLECH

Nid oes gennym lawer o fanylion am y llun sydd ar y dde. Cafwyd benthg y llun gan Edwin Jones [Morlais]. Ei dad, Thomas Jones yw'r pumed o'r chwith. Roedd yn arddwr yn y Coleg. William David Jones [Wil Dei], un o gymeriadau'r dref yn y gorffennol, yw'r chweched o'r chwith. Credir mai Nancy Jeffreys Jones yw'r pedwerydd o'r chwith yn y tu blaen. Tybed a fedr unrhyw un o'n darllenwyr adnabod rhagor o'r bobl sydd yn y llun? Anfonwch air os gwelwch yn dda.




Coleg Harlech cyn codi Theatr Arudwy



Y Neuadd Fawr, Coleg Harlech cyn y tân ar Mai 6, 1968

Athrawon a Phlismyn



Mae'n hawdd iawn i blant ddrysau geiriau wrth ddysgu adnodau a phenillion a geirio'n ddigon blêr wrth eu hailadrodd. Mae hi'n ddigon anodd ar y pethau bach yn ymdopi â'r clasuron yn Gymraeg ond pan ddaw hi yn fater adrodd a chanu yn yr ail iaith fe all fynd yn llanast llwyr.

Yn yr oes a fu, roedd y drefn addysg yn cael ei chynnal yn Saesneg bron yn gyfan gwbl a phlant o gartrefi oedd bron yn uniaith Gymraeg yn ymlafnio i ddysgu a chanu neu adrodd darnau nad oeddynt yn golygu dim iddynt. Mae yna hanes am Syr O M Edwards pan oedd yn arolygydd ysgolion yn mynd i ysgol yn Sir y Fflint, os cofiat yn iawn, â'r plant yn cael sesiwn addoliad boreol. Roedd yr addoliad yn Saesneg a'r emyn a genid oedd emyn mawr clasurol John Milton (1608 -1674):

'Let us with a glad some mind Praise the Lord for he is kind ...'

Roedd O M Edwards braidd yn amheus o fynegiant y plant a pharodd iddynt adrodd y pennill cyntaf iddo yn ara deg. Erbyn gweld yn iawn, dyma beth oedd y plant yn ei ganu: **'Letys gwyddau glas a maip ...'** Efallai bod Saesneg plant wedi gwella rywfaint bellach ond mewn ysgol yn Arfon ychydig flynyddoedd yn ôl, daeth athrawes newydd i'w swydd ychydig cyn y Dolig. Roedd y plant yn paratoi at y gwasanaeth Nadolig ac roedd un o'r carolau i'w chanu yn Saesneg. Dyma hi:

**'Infant holy, infant lowly,
For his bed a cattle stall...'**
Wrth glustfeinio dyma beth glywai'r athrawes:
**'Uffarn oli, uffarn oli,
Ffor hus bedlam cacl stôf...'**

Roedd perthynas i mi a gawsai ei addysg yn yr ysgol gynradd leol yn Sir Fôn yn y blynyddoedd o gwmpas 1890 yn cofio bod y dosbarth wedi dysgu llawer iawn o farddoniaeth

Saesneg. Ychydig oedd o wedi ei ddeall heb sôn am ei gofio. Ond roedd yn amlwg iddo nad oedd y cerddi a ddysgodd o fawr o safon a gresynai na fuasai plant yr oes wedi cael dysgu rhywbeth mwy safonol yn Gymraeg neu yn Saesneg. Cofiai am un gerdd a ddysgodd gyda'r dosbarth cyfan yn ei llafarganu fel parotiaid:

**'Wimbla wîs wimbla wês
Ora ac ora y cwcw ês.'**

Pan oedd bellach yn wîr yn ei chwedegau, daeth cymydog iddo i'r tŷ un noson ar frys gwyllt. Roedd y cymydog yma yn ffrind iddo ers dyddiau ysgol. 'John, wyt ti'n cofio'r peth gwirion hwnnw oeddai ni'n adrodd yn yr ysgol? Yr hen beth hwnnw, Wimbla wîs wimbla wês?' 'Ydw,' meddai John ar ôl meddwl am funud. 'Wyt ti'n gwybod beth oedd o?' 'Na wn i wir. Tydw i ddim wedi meddwl amdano fo ers blynyddoedd.' 'Wel,' meddai'r cymydog, 'dwi wedi dod o hyd iddo fo mewn llyfr. Wyddost ti be oedd o?' 'Na wn ddim o gwbl.'

'Dyma fo. Sbia:

***The wind blows east, the wind blows west,
Over and over the cuckoo's nest.'***

Ac wedi ystyried dipyn wedyn meddai'r cymydog, 'Welais i 'rïoed ddim byd gwirionach. A mwy na hynny does gan y gog ddim ***** nyth.'

Hepgorais yr ansoddair o ran parch i'r golygydd.

Gan droi yn ôl at y Caneuon Ffydd am ennyd, fe welwch fod ynddo emynau gan feirdd o wahanol alwedigaethau. Mae yna emynau fel y tybiwch gan weinidogion ac offeiriaid a chan athrawon, darlithwyr ac academyddion. Fe gawn rai hefyd gan borthmyn a chryddion, gwŷr busnes ac argraffwyr. Hyd y gwn i, does yna ddim ond un emyn gan blismon. Fe gawn olwg ar hwn y tro nesaf ac efallai os ydych wedi hen ddiflasu ar hunan-ynysu yn y cyfamser, wel, mae yma ddigon o le i wneud ychydig o ymchwil! Rhof gliw i chi. Mae gan yr emyn gytgan.

JBW

DARLUN O'R LASYNYS



Diolch i Sheila Maxwell, Bron Heulog, Harlech am y llun yma o ddarlun o'r Lasynys, a brynwyd ganddi mewn arwerthiant elusennau. Yn ôl y label ar y cefn, roedd hwn yn: 'Rhodd gan Mrs Stanley Howells, Abertawe, un o ddisgynyddion Elis Wyn.' Yn anffodus, does gan Sheila ddim gwybodaeth bellach am y llun na phwy oedd Mrs Stanley Howells, felly tybed a oes unrhyw un yn gwybod pwy yw'r arlunydd a beth yw hanes y llun? Diolch.

ENGLYN DA

MYNYDD TAL-Y-FAN

Mynydd yr oerwynt miniog - a diddos
Hen dyddyn y Fawnog,
Lle'r oedd sglein ar bob ceiniog
A 'Nhaid o'r llaid yn dwyn llog.

Huw T Edwards, 1892-1970

Tel : 07717 128003

Richard Pearson



**Pob agwedd o waith
coed, coedwigaeth a
rheolaeth cefn gwlad**

**Coed Tân meddal a chaled
ar gael trwy'r flwyddyn**
• Cynnyrch pren •



• Proffesiynol • Safon BS 3998 •
• Dibynadwy • Cymwysedig •
• Preifat • Masnachol •
• Yswirio'n llawn •



**Gwasanaethau Coed
Pearson & Co Ltd.**

www.PearsonTrees.co.uk

FEIRWS Y GORON YN AWSTRIA



Hanes y Corona mewn negeseuon e-bost o bentref Altenmarkt, Awstria gan Anita Schenk (wedi ei magu yng Nghymru, a pherthnasau yn Ardudwy, ond wedi byw yn Awstria y rhan fwyaf o'i hoes).

Gwener, 13 Mawrth

Hi Haf,
Heddiw mae angen cau *hotels/ski lifts* drwy Awstria a siopau, ysgolion/...etc – pandemig!
Wedi cau Tirol i lawr. Dim *flights* o Spaen na Swistir. Di neb wedi gweld peth fel hyn o'r blaen! Plant ddim yn cael mynd at hen bobol fel taid a nain na hospital/cartrefi'r henoed...!
Hyn am rŵan ... tra fyddaf fyw!
Anita

Gwener 20 Mawrth

Wel mae Flachau [byd-enwog am rasys sgïo] wedi cael ei gau i lawr! Hefyd Bad Hofgastein a'r cwm yna a 3 cwm arall yn sir Salzburg... Neb ond y bobol sydd yn byw yno yn cael mynd i fewn nag allan, gyda llythyr Dr. Post ni a'r siopau wedi cau... mond siopau bwyd ar agor. Heidi wedi ffonio am nwyddau o un o'r siopau ond doeddan nhw ddim yn gallu dod, wedyn ffonio'r cyngor a gofyn am iddynt wneud ei *shopping* iddi hi gan ei bod yn byw mewn fflat ar y 4ydd llawr ac yn hen!
Tydy'r plant/wyrion ddim i fynd at eu Taid/Nain.... a rhaid trefnu i rhywun adael y neges wrth y drws! Neb yn cael mynd am dro, ddim mwy na dau sydd yn byw gyda'i gilydd yn cael mynd allan - llathen o led rhwng un a'r llall!
Yr Eidal yn gofyn am help. Does dim nyrsys na doctoriaid ar gael.
Hyn am rŵan - H [ei gŵr, Heinz] yn *bored stiff*!

Anita

Sul 22 Mawrth

Altenmarkt gyda 3 efo'r feirws a fedri ddim mynd i Flachau/Wagrain Reitdorf (pentrefi agos) ac ymlaen.
Dwi'n gweld fod Cymru hefyd wedi cael y feirws - de Cymru? Mae rhywun yn gweld fel ydan ni yn dibynnu ar *transport* pan fydd siopau bach yn cau; y post a'r siopau yma wedi cau hefyd. Lisel (y ferch, sydd yn nyrs wedi ymddeol) yn mynd i weithio os fydd rhaid troi'r ward yn St Veit i'r cleifion, ac os fydd yna alw am fwy o wlaú.
Anita

Llun 30 Mawrth

Newydd ddarllen cylchlythyr newyddion cyngor y dref - 318 yn y sir gyda Corona ac 18 yn y pentref, 4 wedi marw. Sobor o beth; fydd Lisel yn gweithio gyda nhw 2 ddiwrnod y mis!! Mae un gofalwr wedi ei basio ymlaen yng nghartref yr hen bobol yng ngwaelod yr allt! Mae wedi gwneud cawod o eira yma eto dros nos - mae'n oer yma!
Hyn am rŵan,
Anita

Iau 2 Ebrill

Just i chdi gael gwybod fod y Corona yn mynd yn wyllt yma hefyd!
Llythyr y cyngor dref ddoe yn dweud fod y pentref yn cael ei gau i lawr; 30 o achosion a rhaid cael masg i fynd i'r siopau. Dim ond bobl sydd â chartref yma sy'n cael aros. Rhai o'r gweithwyr wedi mynd i'w gwlad eu hunain. Dim blodau yn cael eu gwerthu sydd yn biti garw!
Cadwa yn saff ...
Anita

Mer 15 Ebrill

O'r diwedd maent wedi cael *test* yng nghartref yr henoed - 70 o *residents* a 30 o staff. Rhyfedd mai'r cartrefi gofal sydd wedi eu heffeithio fwyaf, 3 neu 4 yn Awstria.
O'r diwedd maen nhw'n agor siopau papur, llyfrau a'r canolfannau garddio hefyd, lle roedd pansies yn cael eu taflu i ffwrdd, a siopau i'r dynion gael twls i wneud rhywbeth tra fyddant adref; pawb gyda masg

yma rŵan a llathenni oddi wrth y nesaf...!

Heinz a fi ddim yn cael mynd allan...am ein bod yn hen - mae bywyd yn mynd yn *boring*; Heinz yn crwydro o un stafell i'r llall ac edrych ar y teledu a siarad gyda'r ci a'r gath a gofyn be sydd i ginio...! *What a life!* Mae *globalisation* wedi dod i ben, dwi yn meddwl.

Mae'r gweithwyr yma wedi cael eu gyrru adref hefyd; dim ond un o Poland a 3 o Hungary sydd yn gweithio i DPD sydd wedi cael aros.

Cadw yn saff yr hen goes!

Hyn am rŵan.

Anita

Llun 20 Ebrill

Mae Altenmarkt wedi dechrau agor siopau bach; bydd llawer wedi mynd i'r wal ar ôl hyn!
Dydy'r *hotels* ddim yn cael agor am hir a wedyn dim ond i Almaenwyr ac Austrians yng ngwyliau'r ysgol, a hynny pan fydd y Corona wedi darfod yn y gwledydd o'n cwmpas - dim sôn am yr Eidal.

Mae'r *lockdown* wedi ei godi oddi ar Altenmarkt, a maen nhw wedi rhoi *test* ar bawb oedd yng nghartref yr henoed. Mi oedd yno 58 o staff a 80 o hen bobol. Heinz wedi mynd allan efo Lisel heddiw i nôl blodau, '*mask and all*'. Daeth Karli [y mab] yma ddoe am y tro cyntaf ers 5 wythnos a daeth a masg i'r ddau ohonom. Mi wyt yn cael rhai yn Aldi/Hofer am ddim. Mae o'n cael dechrau gweithio hefyd heddiw. Fe ddaeth a 'roast pork/sauerkraut/knödel' i Heinz ac 'apfel strudel' i mi! Mi ffoniodd bob wythnos hefyd a gofyn os oedd 'na rhywbeth oeddan ni ei angen.

Cadw yn saff.

Anita

Iau 23 Ebrill

Darllen llythyr y cyngor tref a gweld faint o bobol oedd yn sâl yn Altenmarkt. Da ni dal ddim yn cael mynd allan gan ein Matron! Daeth Lena a'r plant i'n gweld heddiw; oeddan ni'n cael eistedd yn yr haul tu allan ... gyda masgs!
Y rhif oedd 49 wedi cael y feirws - 4 wedi marw (oeddan nhw'n hen). Mae 26 wedi mendio,

ac felly 19 sydd dal yn sâl. O'r rhain mae 13 yn y cartref, a 6 yn dal yn sâl ac yn eu cartrefi. Does neb yn gwybod pwy ydyn nhw! Siopau bach yn agor ar y cyntaf o Fai. Ceith Elfi [ffrind] liwio'i gwallt o'r diwedd! Dim 'bier fest' y flwyddyn yma, na Salzburg Festival. Colled fawr i'r *hotels*; does neb yn cael dod yma o wledydd sydd â'r feirws. Wel, dyma ni eto yn y 5ed wythnos, a dal yn fyw!
Hyn am rŵan.

Anita

Mawrth 12 Mai

Wel mae'r Corona wedi dod i rhyw fath o ddiwedd yma yn Altenmarkt. I gyd roedd 49 wedi eu testio yn bositif, ond nid bawb gafodd eu testio, fel fi a fy niwmonia. Mae 39 yn iach eto, 6 wedi marw a 4 yn y cartref yn dal yn sâl, er bod rhai yn gwrthod mynd i'r hospital ..!
Dan ni ond yn clywed beth sydd yn mynd ymlaen yn Lloegr; fel arfer does dim llawer o sôn am Gymru, ond gweld geifr gwyllt yn Llandudno yn bwyta eu ffordd drwy'r gerddi!
Cawsom eira dros nos; maen nhw'n galw hyn yn "eismanner" - tua'r 17 Mai. Wedyn allai di roi blodau allan heb iddyn nhw rewi.

Hyn am rŵan...cadw yn saff,
Anita

17 Mai

Mae'r Llais yn fwy diddorol na Llafar Bro mae rhaid dweud!
Mae yn biti am blant ysgol sydd wedi colli lot; maen nhw'n dysgu darllen yn y dosbarth cyntaf yma ac mae y flwyddyn yma adref yn dibynnu ar y rhieni, siawns. Yr adeg yr oeddwn yn darllen '*News of the World*' i fy nhad ar ôl Ysgol Sul ar ddydd Sul yn dod i fy meddwl...!

Hyn am rŵan; dwi'n gwneud curry i'r dyn 'ma ac yn disgwyl am y reis i wneud!
Hwyl Anita

Llun 25 Mai

Bywyd yn *boring* yma; dwi yn gwau cardigans babis yn fy nhŷ haul os ydy hi'n gynnes. Heddiw yn oer gobleinig ar ôl wythnos gynnes.
Hwyl Anita

PWY YW'R BRIODFERCH?



Cliw – wedi ymfudo i Awstralia at y merched ers rhai blynyddoedd. Maen nhw'n derbyn Llais Ardudwy yn fisol.



Cliw – roedd ei thad yn fugail yng Nghors y Gedol.



Cliw – Bu'n gweithio yn Siop Foxwell ond rŵan yn gweithio yn Ffermwy'r Clynderwen a Cheredigion yn Llanbedr.



Cliw – ei thad yn gweithio i'r Bwrdd Dŵr.



Cliw – un o ferched Parc yr Onnen.



Cliw – Tad y briodferch yma'n gweithio i'r Bwrdd Dŵr.